# Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd

# Briff ar gyfer Cyfarfod 6: Digartrefedd ymysg Plant a Phobl Ifanc a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## Mawrth 2023

Bwriadwyd y briff hwn er mwyn rhoi cefndir a chyd-destun i drafodaeth y Panel Adolygu Arbenigol ar **ddigartrefedd ymysg plant a phobl ifanc (rhan 1)** yn ogystal â **thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (rhan 2).**

Mae chweched cyfarfod y Panel yn nodi dechrau ail haner cynllun gwaith y Panel, sy'n bwriadu ystyried y rhwystrau a wynebir gan grwpiau penodol sy'n fwy tebygol o fod mewn perygl o fod yn ddigartref. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Panel yn ystyried deddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â thai a, lle bo'n briodol, agweddau eraill ar ddeddfwriaeth lle mae hyn yn croestorri ag anghenion cymorth perthnasol.

Drwy gydol gwaith y Panel hyd yn hyn, gwelwyd galw cyffredinol am ddyletswyddau ehangach yn y sector cyhoeddus mewn cysylltiad â dileu digartrefedd. Bydd hyn yn thema ganolog yn ystyriaethau'r Panel.

**Dylid darllen y papur briffio hwn ar y cyd â nodiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Plant yng Nghymru a nodiadau Crisis ar ei sesiwn Rhanddeiliaid Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.**

## Rhan 1: Digartrefedd ymysg Plant a Phobl Ifanc

Mae rhan gyntaf y papur hwn yn ystyried digartrefedd ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd y papur hwn hefyd yn ystyried is-grwpiau penodol y mae'r ddeddfwriaeth ar eu cyfer yn wahanol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel.

Mae'r rhan hon o'r papur yn cynnwys yr is-adrannau a ganlyn:


1. Diffiniad o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc
2. Ystadegau a thueddiadau ym maes digartrefedd pobl ifanc a phlant
3. Deddfwriaeth berthnasol gyfredol yng Nghymru mewn cysylltiad â digartrefedd ac:
    (a) Plant dan 18
    (b) Pobl ifanc 18-20 oed
    (c) Pobl ifanc sy'n gadael gofal
    (d) Pobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel
    (e) Llety dros dro i deuluoedd a phobl ifanc
4. Digartrefedd ymysg pobl ifanc a thri phrawf cyfreithiol cyfredol:
    (a) Angen blaenoriaethol
    (b) Cysylltiad lleol
    (c) Bwriadoldeb
5. Cyd-destun Polisi yng Nghymru
6. Rhwystrau sy'n atal dileu digartrefedd ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru
7. Pwyntiau i arwain trafodaeth
8. Atodiad A: Argymhellion Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru (EYHC)


### 1. Diffiniad o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc

Nid oes diffiniad o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc mewn deddfwriaeth yng Nghymru ar hyn o bryd.

O ganlyniad, mae rhai sefydliadau, megis Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru, yn defnyddio'r diffiniad a ganlyn o'r Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer Diffinio Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc:

*Mae digartrefedd ymysg pobl ifanc yn digwydd pan fydd unigolyn rhwng 13 a 26 oed heb do dros ei ben, neu heb dŷ i fyw ynddo, neu'n byw mewn llety anniogel neu annigonol heb riant, aelod o'i deulu neu warcheidwad cyfreithiol arall.*[1]

Fodd bynnag, gan fod fframweithiau cyfreithiol perthnasol y DU (gweler yr adran nesaf) at ei gilydd yn ystyried digartrefedd ymysg pobl ifanc o fewn yr ystod oedran o 16-24 oed, a bod yr ystod oedran 16-25 oed yn cael ei ddefnyddio yn ystadegau Llywodraeth Cymru ar ddigartrefedd ymysg pobl ifanc, bydd y papur hwn yn canolbwyntio ar yr ystodau oedran hyn.

[1] Gweler framework-for-defining-youth-homelessness_final_pdf3614092469143708469.pdf (feantsa.org).

Yn hanesyddol, mae gwahanol ystodau oedran ar gyfer digartrefedd ymysg pobl ifanc wedi bod yn gysylltiedig â ffrydiau ariannu gwahanol yn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'r Grant Cymorth Tai wedi bod yn benodol ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed. Fodd bynnag, mae canllawiau[2] a ddiweddarwyd yn ddiweddar wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran cymorth cyn tenantiaeth neu ariannu cyfryngu teuluol i bobl ifanc dan 16 oed.

## 2. Ystadegau a thueddiadau ym maes digartrefedd ymysg pobl ifanc a phlant

Cesglir data statudol ar bobl ifanc yng Nghymru ar gyfer y rhai 16-25 oed sy'n cysylltu â'u hawdurdod lleol i ddweud eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Bob blwyddyn, mae dros 7,000 o bobl ifanc yn cysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddweud eu bod yn ddigartref. Y data blwyddyn lywodraeth lawn diweddaraf sydd ar gael yw data o 2018-19. Mae'r data yn dangos bod 7,698 o bobl 16-25 oed wedi cysylltu â'u hawdurdod lleol i ddweud eu bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn honno. O'r rhain, roedd 732 yn blant 16-17 oed, a disgrifiwyd 3,507 fel rhai yr oedd dyletswydd gyfreithiol iddynt.[3]

Er 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu gwybodaeth yn ymwneud â lleoli pobl ifanc 16-17 oed a phobl ifanc 18–21 oed sy'n gadael gofal mewn llety gwely a brecwast dros dro dan ddeddfwriaeth digartrefedd neu wasanaethau cymdeithasol. Yn 2021-22, cafodd pobl ifanc 16 a 17 oed eu rhoi mewn llety gwely a brecwast dros dro dan y ddeddfwriaeth Digartrefedd bresennol ar 95 achlysur, ac ar 21 achlysur arall dan ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Cafodd pobl ifanc 18-21 oed sy'n gadael gofal eu rhoi mewn llety gwely a brecwast dros dro dan y ddeddfwriaeth Digartrefedd bresennol ar 114 achlysur.[4]

Oherwydd natur digartrefedd ymysg pobl ifanc, sy'n debygol o gynnwys mathau o ddigartrefedd sy'n cael eu hystyried yn rhai 'cudd', megis mynd o soffa i soffa a chysgu mewn ceir, cydnabyddir yn eang na fydd data digartrefedd statudol yng Nghymru yn rhoi adlewyrchiad cywir o faint digartrefedd ymysg pobl ifanc.

Mae pobl ifanc sydd hefyd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn fwy tebygol o brofi digartrefedd na'u cyfoedion. Mae ymchwil wedi dangos bod un o bob tri (33%) pherson ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn canfod eu hunain yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl gadael gofal.[5]

---

[2] Gweler grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer_0.pdf (llyw.cymru).

[3] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/main-reason-for-being-threatened-with-homelessness-by-type-of-household-section-66-

[4] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-07/homelessness-in-wales-2021-22-002.pdf

[5] https://www.stepbystep.org.uk/news/who-cares-the-link-between-leaving-care-and-homelessness/

Mae digartrefedd ymysg pobl ifanc hefyd yn fwy amlwg yn y gymuned LGBTQ+. Canfu Ymddiriedolaeth Albert Kennedy fod 24% o'r bobl ifanc sy'n ddigartref ledled y DU yn ystyried eu hunain yn LGBT.[6]

Mae digartrefedd ymysg plant yn cael ei gofnodi mewn data sy'n ymwneud â theuluoedd digartref. Canfu data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021-22 fod 24% o'r holl aelwydydd a oedd wedi eu rhoi mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2022 yn deuluoedd â phlant, sy'n gynnydd o 22% ers y flwyddyn flaenorol. Teuluoedd â phlant oedd 7% o'r holl aelwydydd a gafodd eu rhoi mewn llety gwely a brecwast a 28% o'r holl aelwydydd a gafodd eu rhoi mewn hosteli a llochesi.[7]

Y flwyddyn ddiwethaf lle casglwyd data cyflawn am ffigurau statudol ar gyfer digartrefedd ymysg teuluoedd yng Nghymru yw 2018–19. Yn ystod y flwyddyn hon, roedd tua 44% o'r holl aelwydydd a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref yn deuluoedd â phlant dibynnol. Roedd y rhan fwyaf o'r aelwydydd hyn yn unig rieni â phlant dibynnol ac aelwydydd un person, a oedd yn 84% o'r aelwydydd cymwys. Mae llawer gormod o'r mathau hyn o aelwydydd mewn ystadegau digartrefedd o gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth aelwydydd. Aelwydydd unig rieni â phlant dibynnol oedd 32.3% o'r achosion o ddigartrefedd, o gymharu â 7.5% o'r boblogaeth aelwydydd yn 2011.[8]

Roedd yr ystadegau misol diweddaraf ar gyfer darparu llety i bobl ddigartref a chysgu ar y stryd yn dangos bod 30% (2,696) o'r 9,043 o unigolion a oedd mewn llety dros dro yn blant dibynnol dan 16 oed.[9]

## 3. Deddfwriaeth berthnasol gyfredol yng Nghymru

Mae'r rhan hon o'r papur yn cynnwys trosolwg o'r ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru sy'n ymwneud â digartrefedd ymysg plant a phobl ifanc. Mae wedi'i rhannu'n is-adrannau fel a ganlyn:

a. Plant dan 18 oed
b. Pobl ifanc 18-20 oed
c. Pobl ifanc sy'n gadael gofal
d. Pobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel
e. Llety dros dro i deuluoedd a phobl ifanc

[6] https://www.llamau.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=1ab2fc66-c571-44f0-8ceb-2d1346f38303
[7] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-07/homelessness-in-wales-2021-22-002.pdf
[8] https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-lles-plant-phobl-ifanc-cymru-o-gymunedau-cydlynus-html
[9] https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-tachwedd-2022

## a. Plant dan 18

**Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**

Mae hawliau plant wedi'u diogelu yng nghyfraith Cymru dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n amlinellu ymrwymiad Cymru i hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion i ystyried y Confensiwn wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi. Golyga hyn fod yn rhaid i Weinidogion roi pwysoliad priodol i ofynion y Confensiwn, gan sicrhau cydbwysedd rhwng y gofynion hyn â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ymdrin ag ystod o hawliau penodol, gan gynnwys erthygl 27 sy'n amlinellu'r hawl i blant gael safon byw ddigonol.

Wrth ddrafftio unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru roi sylw dyledus i effaith hyn ar blant.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae'r ddyletswydd i ddod o hyd i lety a rhoi cymorth i blant dan 18 sy'n ddigartref neu ar fin bod yn ddigartref yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Mae rhai o brif adrannau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel y mae'n ymwneud â dod o hyd i lety i blant a phobl ifanc i'w gweld isod.

Mae **Adran 15, (2) (c)** o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol hybu magwraeth plant gan eu teuluoedd, pan fo hynny'n gyson â llesiant y plant. Lle mae teulu cyfan yn gofyn i'r gwasanaethau cymdeithasol am gymorth, mae gan y gwasanaethau cymdeithasol ddyletswydd tuag at y plant a'r bobl ifanc yn y teulu yn unig (oni bai fod gan yr oedolion ofynion arbennig eu hunain). Fodd bynnag, fel rhan o'r nod o gynorthwyo'r person ifanc i aros gyda'r teulu, gallant ddarparu llety i'r teulu cyfan.

Ym mis Mai 2009, gwnaeth Tŷ'r Arglwyddi ddyfarniad arwyddocaol yn achos R (G) v London Borough of Southwark a effeithiodd ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn darparu llety a chymorth i bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref. Yn dilyn yr achos hwn, os yw person ifanc 16 neu 17 oed sy'n ddigartref yn gwneud cais i awdurdod tai, dylid darparu llety interim iddo dan y ddeddfwriaeth digartrefedd. Yna dylai gael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol am asesiad o'i anghenion dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Adran 75** yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol gymryd camau sy'n sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, ei fod yn gallu darparu llety i blant sy'n derbyn gofal sydd o fewn ardal yr awdurdod ac sy'n 'diwallu anghenion y plant hynny.'

Mae **Adran 76** yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety i unrhyw blentyn yn ei ardal sydd wedi cyrraedd 16 oed, ac y byddai llesiant y plentyn hwnnw, ym marn yr awdurdod, yn debygol o gael ei andwyo'n ddifrifol os na fyddai'n darparu llety iddo.

Mae **Adran 81** yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau i blentyn sy'n derbyn gofal fyw gyda rhiant cyn belled ag y mae hynny'n gyson â llesiant y plentyn ac yn rhesymol ymarferol. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gallu gwneud y trefniadau hyn, rhaid iddo leoli'r plentyn yn y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael, yn ei farn ef:

(a) lleoliad gydag unigolyn sy'n berthynas, yn ffrind neu'n berson arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn ac sydd hefyd yn rhiant maeth awdurdod lleol
(b) lleoliad gyda rhiant maeth awdurdod lleol nad yw'n dod o fewn paragraff (a)
(c) lleoliad mewn cartref plant
(d) yn amodol ar adolygiad, lleoliad yn unol â threfniadau eraill sy'n cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir at ddibenion yr adran hon.

Wrth benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol, rhaid i'r awdurdod lleol roi blaenoriaeth uwch i leoliad sy'n dod o fewn paragraff (a).

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau:

- bod y lleoliad yn caniatáu i'r plentyn fyw gerllaw ei gartref
- nad yw'r lleoliad yn amharu ar addysg neu hyfforddiant y plentyn
- bod y lleoliad yn galluogi'r plentyn ac unrhyw frawd neu chwaer y mae'r awdurdod hefyd yn darparu llety iddo fyw gyda'i gilydd
- bod y lleoliad yn addas i anghenion penodol y plentyn, os yw'n anabl
- bod y lleoliad o fewn ardal yr awdurdod lleol.

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol lunio strategaeth ar y cyd rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd.

Mae pob person ifanc 16 a 17 oed, a phobl y mae plentyn dibynnol yn byw gyda nhw, neu y byddai'n rhesymol disgwyl y byddai'n byw gyda nhw, yn cael eu hystyried fel rhai ag angen blaenoriaethol.

Dan Adran 96, rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i sicrhau, pan fo'n penderfynu nad oes gan geisydd â phlant dibynnol hawl i gael ei ailgartrefu, h.y., ei fod wedi mynd yn ddigartref yn fwriadol neu wedi dod o dan fygythiad o ddigartrefedd yn fwriadol, bod ei adran dai yn rhoi'r cyfryw gyngor a chymorth i'r adran gwasanaethau cymdeithasol ag y caiff yr adran gwasanaethau cymdeithasol ofyn yn rhesymol amdanynt.

**Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (2016)**

Dylai unig rieni dan 18 oed gael cynnig llety â chymorth.

## b. Pobl ifanc 18-20 oed

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Mae pobl ifanc 18-20 oed sy'n wynebu risg arbennig y bydd rhywun yn camfanteisio'n rhywiol neu'n ariannol arnynt yn cael eu hystyried yn rhai sydd ag angen blaenoriaethol, yn ogystal â phobl ifanc 18-20 oed sy'n derbyn gofal neu'n cael eu maethu ar unrhyw adeg tra maent dan 18 oed (yn cael ei archwilio ymhellach isod).

## c. Pobl ifanc sy'n gadael gofal

Mae gan bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru nifer o wahanol hawliadau sydd wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael llety priodol. Mae unrhyw un sydd wedi derbyn gofal am 13 wythnos yn gymwys i gael cymorth ôl-18. Bydd hawl gan yr awdurdodau unigol i benderfynu ym mhob achos a yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael llety gan y gwasanaethau cymdeithasol ynteu'r awdurdod tai. Dylid cael protocolau wedi'u cytuno ar y cyd ar gyfer asesu anghenion.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i wasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol gydweithio er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc mewn gofal wrth iddynt symud i fyw'n annibynnol.

Mae **Adran 103** o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn gynghori, cynorthwyo ac ymgyfeillio â'r plentyn gyda golwg ar hyrwyddo llesiant y plentyn pan fydd wedi peidio â gofalu amdano.

Daeth Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 dan y Ddeddf hon i rym yn 2016. Mae'r Ddeddf hon a'r Rheoliadau cysylltiedig yn amlinellu dyletswyddau amrywiol sydd gan awdurdodau lleol tuag at bobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal, gan gynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â llety. Mae'r dyletswyddau'n amrywio gan ddibynnu ar statws y sawl sy'n gadael gofal (sydd wedi'i grwpio i bedwar categori) ond y gofynion cyffredinol yw y dylai awdurdodau lleol:

- gynllunio gyda phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau
- osgoi symud pobl ifanc sydd wedi setlo
- asesu anghenion pobl ifanc a'u paratoi ar gyfer unrhyw symud
- sicrhau bod y llety'n diwallu unrhyw anghenion sy'n gysylltiedig â nam
- ystyried anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- lle bo'n ymarferol, cynnig dewis o lety
- sefydlu pecyn o gefnogaeth i fynd gyda'r llety
- cael cynllun ariannol clir ar gyfer y llety a chynllun wrth gefn.

Mae'r rheoliadau a'r canllawiau hefyd yn nodi sut y dylai strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ystyried:

- anghenion llety a chymorth amrywiol gadawyr gofal
- y gallu i gynnig rhywfaint o ddewis o ran llety i bobl ifanc
- y ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig o lety diogel, fforddiadwy
- bylchau yn y ddarpariaeth
- lleoliad blaenoriaethol
- yr angen am drefniadau wrth gefn.

Cyflwynodd Rhan 6 o'r Ddeddf ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth, hwyluso a chefnogi trefniadau byw ôl-18 i bobl ifanc sydd mewn gofal maeth. Cafodd y ddyletswydd hon ei gweithredu dan y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod', a gyflwynwyd ledled Cymru yn ystod 2015-16. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i berson ifanc ddal i fyw mewn amgylchedd teuluol sefydlog ac anogol ar ôl iddo gyrraedd ei 18 oed, nes bydd yn 21 oed (neu nes bydd yn 25 os yw'n cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant gytunedig).

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Dylai pobl ifanc 18-20 oed a fu'n derbyn gofal neu'n cael eu maethu ar unrhyw adeg tra oeddent dan 18 oed gael eu hystyried fel angen blaenoriaethol.

Mae'r Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â gadawyr gofal sydd dan fygythiad o ddigartrefedd a chysylltiad lleol:

*Yn achos pobl ifanc yn y system derbyn gofal sydd wedi cael eu lleoli y tu allan i'r ardal, lle maent yn gadael gofal ac yn dymuno dychwelyd i'r ardal yr oeddent yn gysylltiedig â hi yn wreiddiol dylid derbyn bod ganddynt gysylltiad â'r ardal, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu lleoli yn rhywle arall am gyfnod sylweddol. Wrth asesu a oes gan aelwyd ceisydd gysylltiad lleol â'i ardal, dylai Awdurdod hefyd ystyried a oes gan unrhyw berson y byddai'n rhesymol disgwyl y byddai'n byw gyda'r ceisydd gysylltiad o'r fath. Dylid ystyried bod gan adawyr gofal sy'n dymuno aros yn ardal eu lleoliad gysylltiad lleol hefyd pe baent yn bodloni'r prawf cysylltiad lleol. Felly os yw gadawr gofal wedi'i leoli y tu allan i ardal a'i fod yn dymuno dychwelyd i'w ardal wreiddiol, rhaid i awdurdod yr ardal wreiddiol dderbyn cysylltiad lleol ag ef.*[10]

## d. Pobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Mae **Adran 52** o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i strategaethau digartrefedd awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â chamau a gynlluniwyd mewn cysylltiad â phobl yn gadael llety cadw ieuenctid.

---

[10] Llywodraeth Cymru (2016) Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, tt299-300. allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf (llyw.cymru)

**Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel**

Mae 'Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel' Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella gwasanaethau a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion tai pobl sy'n gadael sefydliadau diogel. Cyflwynwyd y llwybrau i garcharorion mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, gan gynnwys tynnu carcharorion oddi ar y rhestr o bobl ag angen blaenoriaethol.

Mae'r llwybr i blant a phobl ifanc yn ymhelaethu ynglŷn â'r asiantaethau a all ddarparu cymorth i bobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Mae timau troseddwyr ifanc yn gweithio mewn cysylltiad agos â sefydliadau diogel er mwyn sicrhau bod trefniadau adsefydlu priodol mewn lle pan fydd plentyn neu berson ifanc yn gadael sefydliad diogel. Mae gan y Tîm Troseddwyr Ifanc gyfrifoldeb i helpu i ddarparu llety addas i rai sy'n gadael sefydliad diogel a dylent wneud hyn gyda Gwasanaethau Plant a/neu'r Opsiynau Tai yn yr awdurdod lleol perthnasol.

### e. Llety dros dro i deuluoedd a phobl ifanc

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar ddarparu llety i bobl ifanc 16 a 17 oed a allai fod yn ddigartref. Mae canllawiau statudol yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud pob ymdrech i osgoi lleoli pobl ifanc 16 a 17 oed mewn llety gwely a brecwast.

**Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015**

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi rhagor o ofynion addasrwydd ar gyfer aelwydydd ag angen blaenoriaethol mewn cysylltiad â lleoliad, llety gwely a brecwast a llety a rennir. Mae'r Gorchymyn yn nodi terfynau amser statudol ar gyfer cynnig llety amgen addas i'r rhai hynny y canfyddir bod ganddynt angen blaenoriaethol sy'n cael eu lleoli mewn llety a rennir, llety gwely a brecwast neu loches, gan ddibynnu os bernir bod y llety y maent ynddo o safon sylfaenol ynteu safon uwch.

Gall ceiswyr sydd wedi cael cynnig llety amgen addas ddewis aros yn eu llety gwely a brecwast, lloches neu lety safon sylfaenol arall a rennir ganddynt ar hyn o bryd. Mae'r Gorchymyn yn nodi bod yn rhaid i'r llety amgen addas a gynigir yn yr amgylchiadau hyn fod:

- yn hunangynhwysol os yw'r aelwyd yn cynnwys plant dibynnol (neu fenyw feichiog)
- yn darparu cymorth os yw ar gyfer ceisydd 16 neu 17 oed
- yn bodloni'r safon uwch os yw'n llety a rennir.

## 4. Digartrefedd ymysg pobl ifanc a'r profion cyfreithiol

Mae'r adran hon o'r papur yn amlinellu ystyriaethau o safbwynt digartrefedd ymysg pobl ifanc ar gyfer y tri phrawf cyfreithiol, sef:

a. Angen blaenoriaethol
b. Cysylltiad lleol
c. Bwriadoldeb

### a. Angen blaenoriaethol

Er bod rhai pobl ifanc yn rhai ag angen blaenoriaethol, mae cred gyffredinol y dylid ymestyn hyn.

Fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru o Angen Blaenoriaethol[11], cyflwynodd llawer y ddadl y dylai pobl ifanc dan 35 oed gael eu derbyn yn awtomatig fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol oherwydd bod deddfwriaeth les Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar y swm y gallant gael mynediad ato i dalu rhent dan yr oedran hwn.

Mae Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru (EYHC) yn nodi "p'un ai fel y cyntaf o set leihaol o grwpiau y byddai profi yn dod i ben ar eu cyfer, ynteu fel rhan o broses i dynnu'r prawf angen blaenoriaethol o ddeddfwriaeth yn gyfan gwbl, byddai'r symudiad hwn yn golygu un rhwystr yn llai i bobl ifanc sy'n ceisio cael mynediad at lety."[12]

### b. Cysylltiad lleol

Mae cysylltiad lleol yn achosi problemau penodol i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae EYHC yn dweud yn eu hymchwil bod rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo mai anhyblygrwydd y prawf cysylltiad lleol yw achos eu digartrefedd gan ei fod yn eu hamddifadu o'r gallu i aros mewn awdurdodau lleol lle maent yn teimlo'n gartrefol. Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr yn eu hymchwil eu bod wedi cael eu hadleoli i awdurdodau lleol lle cawsant eu geni, ond lle nad oedd ganddynt unrhyw rai o'r rhwydweithiau cefnogi sy'n hollbwysig er mwyn cynnal tenantiaethau.[13] Nodwyd y broblem hon hefyd yn y sesiwn ar-lein i randdeiliaid a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru i helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwaith y Panel.

Mae dealltwriaeth yn dod i'r amlwg hefyd y gall y prawf cysylltiad lleol fod yn rhwystr penodol i aelodau o'r gymuned LGBTQ+, sy'n cynnwys nifer fawr o bobl ifanc ddigartref[14]. Canfu Ymddiriedolaeth Albert Kennedy fod 24% o'r bobl ifanc yn y boblogaeth ddigartref ledled y DU yn ystyried eu hunain yn LGBT. Deellir yn gyffredinol fod pobl LGBTQ+ yn llawer mwy tebygol o symud i ddinasoedd mawr er mwyn bod yn rhan o gymunedau LGBTQ+ a chael mynediad at wasanaethau penodol iddynt, felly dadleuwyd y gallai'r prawf cysylltiad lleol wahaniaethu yn erbyn pobl LGBTQ+ fel hyn, ac y byddai ei ddileu o fudd i bobl LGBTQ+ sy'n symud yn bell o gartref eu teulu.[15]

---

[11] Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (2020) Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru (llyw.cymru)

[12] A Roadmap to Ending Youth Homelessness in Wales, EYHC (2021) EYHC Roadmap Full Report.pdf (cardiff.ac.uk)

[13] 'Don't let me fall through the cracks': Homelessness amongst care-experienced young people in Wales, EYHC, (2020)

[14] Out On The Streets: LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales, EYHC (2019) Download.ashx (llamau.org.uk)

[15] Helen Carr, Adi Cooper, Edith England, Peter Matthews, Gill Taylor a Carin Tunåker (2022) Queer utopias of housing and homelessness, Housing Studies. Full article: Queer utopias of housing and homelessness (tandfonline.com)

### c. Bwriadoldeb

Mae cychwyn adran 75(3) o Ddeddf Tai (Cymru) ym mis Rhagfyr 2019 yn golygu na ellir canfod bod pobl ifanc ag angen blaenoriaethol sydd dan 21 oed a phobl ifanc 21-25 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddigartref yn fwriadol.

Gellir gwneud penderfyniadau bwriadoldeb o hyd yn erbyn pobl ifanc dros 21 oed sydd heb gael profiad o fod mewn gofal, neu bobl ifanc y bernir eu bod wedi achosi eu digartrefedd 'yn fwriadol' am yr ail waith mewn cyfnod o bum mlynedd.

## 5. Cyd-destun Polisi yng Nghymru

Yn 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru ar y cyd a Phrifysgol Caerdydd a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i'r ffordd orau o atal digartrefedd ymysg pobl ifanc.[16] Daeth yr adroddiad, *Atal Digartrefedd Pobl Ifanc*, i'r casgliad y dylai agenda atal digartrefedd ymysg pobl ifanc fod wedi ei gwreiddio yn y meysydd a ganlyn:

1. Ataliaeth strwythurol. Mae hyn yn ymdrin â phwysigrwydd polisïau sy'n ceisio lleihau tlodi, darparu cymorth ariannol i deuluoedd incwm isel a chynyddu mynediad at dai fforddiadwy i deuluoedd.
2. Ataliaeth systemau. Mae'r adroddiad yn dweud bod "pontio o ofal, sefydliadau cywiro, a sefydliadau gofal iechyd cleifion preswyl heb gymorth yn uniongyrchol yn achosi digartrefedd i nifer o bobl ifanc" ac yn cyfeirio at rôl hollbwysig ymyriadau effeithiol i gefnogi pobl ifanc yn ystod y cyfnodau pontio hyn. Mae'n amlinellu rhai o'r ymyriadau hyn fel "cynllunio rhyddhau cynnar wedi ei arwain gan ieuenctid; cyfryngu teuluol ac uno cyn, yn ystod ac ar ôl gadael systemau cyhoeddus; cymorth ariannol a thai ar ôl gadael gofal neu garchar; rheoli achos wedi ei hysbysu gan drawma; rhaglenni dargyfeirio mewn carchardai; a gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr."
3. Ymyriadau cynnar. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at rôl hollbwysig ymyriadau yn yr ysgol, cyfryngu teuluol yn ogystal â mynediad at gymorth iechyd meddwl a dibyniaeth yn gynnar.
4. Troi allan. Er bod yr adroddiad yn cydnabod bod diffyg tystiolaeth yn y maes hwn, mae'n nodi bod y dystiolaeth gryfaf yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu cymorth ariannol a chyfreithiol.
5. Sefydlogrwydd Tai. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu cymhorthdal tai a chymorth ariannol, yn ogystal â defnyddio mentrau Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc.

Yn dilyn yr arsylwadau hyn, gwnaeth adroddiad 2018 gyfres o argymhellion, gan nodi'r angen am:

---

[16] Gweler [Atal Digartrefedd Pobl Ifanc | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru]

- Waith trawsadrannol er mwyn nodi, asesu a chefnogi pobl ifanc sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd.
- Cefnogaeth i'r rhai hynny sy'n gadael gwasanaethau gofal a sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithredu ar sail "dim rhyddhau i ddigartrefedd".
- Partneriaethau rhwng ysgolion, gofal iechyd, cymorth iechyd meddwl, a gwasanaethau cymdeithasol cymunedol er mwyn canolbwyntio ar adnabod ansicrwydd ynglŷn â llety yn gynnar.
- Cynlluniau cefnogi i bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r system cyfiawnder troseddol, a fyddai'n rhoi sylw penodol i gyflogaeth, addysg, iechyd ac iechyd meddwl, sgiliau bywyd, a chynhwysiant cymdeithasol a chysylltiad â theulu, ffrindiau ac ôl-ofal yn y gymuned.
- Addysg ac eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, ar hawliau cyfreithiol a dynol, ynghyd ag offer a llwybrau i gael mynediad at gymorth cyfreithiol pan fydd hawliau pobl ifanc yn cael eu treisio.
- Buddsoddiadau i helpu i weithredu modelau tai sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, megis Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc.
- Sicrhau bod y ddeddfwriaeth 'dyletswydd i gynorthwyo' yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i anghenion a hawliau pobl ifanc, gan warantu bod plant a phobl ifanc yn cael yr un amddiffyniad ag oedolion.

Mae rhai o'r prif themâu a nodwyd yn yr adroddiad hwn wedi darparu cefnlen ar gyfer cyfres o bolisïau gan Lywodraeth Cymru a mentrau i fynd i'r afael â digartrefedd ymysg pobl ifanc yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel yr amlinellir isod.

**Y Grant Cymorth Ieuenctid/Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid**

Er 2019-2020 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn buddsoddi £3.7 miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn yn y Grant Cymorth Ieuenctid. Mae'r grant yn ceisio canfod pobl ifanc sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yn gynharach er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen i'w atal.

Fel rhan o gyllid y Grant Cymorth Ieuenctid, mae awdurdodau lleol wedi penodi Cydlynydd Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc sydd wedi'i leoli yn y gwasanaeth ieuenctid, ac sy'n gweithio â chydweithwyr ym maes addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y rhai sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael eu hadnabod a'u cefnogi. Maent hefyd yn gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc ac athrawon fwy o ddealltwriaeth o ddigartrefedd a sut i gael mynediad at gymorth.

Mae gwaith traws-lywodraethol wedi bod yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod atal digartrefedd ymysg pobl ifanc wedi'i wreiddio yn y fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, a ddatblygwyd yn wreiddiol er mwyn adnabod a chefnogi'r rhai hynny sy'n wynebu risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Cyhoeddwyd y Fframwaith wedi'i ddiweddaru ym mis Medi 2022.[17]

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru'r canllawiau adnabod yn gynnar cyn-16 oed a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r Fframwaith gwreiddiol. Mae'r canllawiau'n cael

[17] Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Trosolwg | LLYW.CYMRU

eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid, ac maent yn ceisio sicrhau bod adnabod risg o ddigartrefedd yn cael ei gynnwys.

**Cronfa arloesi digartrefedd ymysg pobl ifanc**

Dechreuodd prosiectau'r gronfa arloesi digartrefedd ymysg pobl ifanc yn 2019-20 ac maent yn ymwneud yn benodol â phobl ifanc 16-25 oed sy'n agored i niwed ac o dan fygythiad o ddigartrefedd neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd, gan gynnwys ymhlith eraill gadawyr gofal, pobl ifanc anabl a'r rhai sydd wedi bod yn y system cyfiawnder ieuenctid yn flaenorol. Mae dros 20 o brosiectau yn darparu tai a dulliau cefnogi newydd ac arloesol i bobl ifanc yn weithredol ledled Cymru o ganlyniad i fuddsoddiad o dros £3.1 miliwn (2022-23) gan Lywodraeth Cymru yn y gronfa.

**Cynllun Plant a Phobl Ifanc**

Cyhoeddwyd Cynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2022. Un o'r prif flaenoriaethau yn y cynllun traws-lywodraethol hwn yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cartref da a diogel i fyw ynddo.

**Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion**

Bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio â CLlLC a Cymorth Cymru i gynhyrchu 'Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion,'[18] fframwaith hyblyg y gall awdurdodau lleol a'u partneriaid ei ddefnyddio i ddarparu dull wedi'i gynllunio o atal digartrefedd a darparu opsiynau tai i bobl ifanc. Ei nod yw helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau i gydweithio er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau i bobl ifanc.

**Fframwaith llety a chymorth i adawyr gofal/peilot incwm sylfaenol**

**Fframwaith llety a chymorth**

Bu Barnardo's Cymru, Shelter Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr gadael gofal a darparwyr llety i bobl ifanc er mwyn sefydlu fframwaith llety a chymorth i adawyr gofal yng Nghymru (2016).[19] Mae'r fframwaith hwn yn gweithio fel 'chwaer', sy'n ymwneud yn benodol â gadawyr gofal, i'r fframwaith llwybr cadarnhaol a ddisgrifiwyd uchod. Mae'n amlinellu model sy'n ceisio helpu sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru, h.y., comisiynwyr awdurdodau lleol, rheolwyr gadael gofal, rheolwyr tai a darparwyr tai a chymorth i bobl ifanc. Mae'r fframwaith yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

**Peilot incwm sylfaenol**

Yn 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru y peilot incwm sylfaenol i rai sy'n gadael gofal, gan ddarparu taliad misol o £1,600 (£1,280 ar ôl tynnu treth) i bob person cymwys sy'n dewis cymryd rhan yn y peilot am 24 mis. Mae'r cynllun ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal a fydd yn cael eu pen-blwydd yn 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, gan gynnwys

---

[18] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/atal-digartrefedd-canllawiau.pdf
[19] https://www.barnardos.org.uk/sites/default/files/uploads/Care%20leavers%20accommodation%20and%20support%20framework%20for%20Wales%20October%202016%20%28PDF%29.pdf

plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru ond sy'n dal yn gyfrifoldeb i awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae cyflwyno'r peilot yn gydnabyddiaeth o'r ffaith fod nifer anghymesur o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddifreintiedig, a'u bod yn fwy tebygol o safbwynt ystadegol o brofi digartrefedd yn ogystal â salwch meddwl.[20] Mae Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru wedi dweud eu bod yn teimlo bod rhai problemau gyda'r peilot, ond eu bod yn dal i deimlo'n gadarnhaol ac yn obeithiol y bydd archwilio'r prosiect hwn yn arwain at ragor o ddatblygiadau i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[21]

**Cynllun Cenedlaethol i Roi'r Gorau i Ddigartrefedd**

Mae cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i ddigartrefedd[22] yn addo gwella ymyriadau a mesurau atal wedi'u targedu drwy:

- Atgyfnerthu systemau awdurdodau lleol ar gyfer nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn llawer cynharach, gan sicrhau bod cymorth addas ar waith ar gyfer y rhai sy'n cael eu nodi.
- Datblygu, diwygio neu wella'r broses o roi llwybrau ar waith â chymorth wedi'i deilwra, ymyriadau priodol a datrysiadau tai ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg o niwed, gan gynnwys ymhlith eraill plant sy'n wynebu risg o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Mabwysiadu dull integredig o weithredu'r Cynllun Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd gyda'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Mireinio'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid
- Parhau i fuddsoddi mewn Cydlynwyr Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc
- Sicrhau bod camau i leihau tlodi plant a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gyson â pholisi ac ymarfer atal digartrefedd.

**Prosiect Cartrefi Bach i blant mamau sydd wedi'u carcharu**

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno yn ddiweddar i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn sicrhau canlyniad a fydd yn gweld plant sydd yn y systemau lles a chyfiawnder yng Nghymru yn cael eu cydleoli'n llawn yn yr un adeilad/ar yr un safle. Y weledigaeth yw symud oddi wrth y ddarpariaeth bresennol tuag at gartrefi rhanbarthol, bach.[23]

---

[20] https://www.llyw.cymru/cynllun-peilot-incwm-sylfaenol-ar-gyfer-pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-trosolwg-or-cynllun.

[21] t.35 Final+Don't+Let+Me+Fall+Through+The+Cracks+-+Report+Review.pdf (squarespace.com)

[22] Gweler Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026 (llyw.cymru)

[23] Llythyr gan Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Jenny Rathbone, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Ionawr 2023. Ar gael yn: https://business.senedd.wales/documents/s133249/Letter%20from%20the%20Minister%20for%20Social%20Justice%20-%2019%20January%202023.pdf

**Upstream Cymru**

Mae Prifysgol Caerdydd a Llamau yn cydweithio ar Upstream Cymru, rhaglen ymyriadau cynnar mewn ysgolion, sydd wedi'i modelu ar [Brosiect Geelong yn Awstralia](), a arweiniodd at ostyngiad o 40% mewn digartrefedd ymysg pobl ifanc a gostyngiad o 20% yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael ysgol yn gynnar.

Mae Upstream Cymru yn fenter ymyriadau cynnar gydweithredol sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion er mwyn ystyried sut y mae angen cynllunio systemau digartrefedd ieuenctid. Y nod yw canfod pobl ifanc sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd mewn da bryd cyn iddynt gyrraedd sefyllfa argyfwng neu fod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'n dechrau ag arolwg syml sy'n cael ei gwblhau gan fyfyrwyr 11-16 oed tra yn yr ysgol. Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar feysydd amrywiol, fel bod y tîm Upstream a'r ysgol berthynol yn gallu casglu ystod eang o ddata. Mae dros 1200 o arolygon wedi'u cynnal ar draws y saith ysgol sy'n cymryd rhan yn y broses o ddechrau cyflwyno rhaglen Upstream Cymru yng Nghymru.

## 6. Rhwystrau sy'n atal dileu digartrefedd ymysg pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru

Er bod y rhwystrau sy'n atal dileu digartrefedd o bob math yn gymwys i ddigartrefedd ymysg pobl ifanc a theuluoedd, mae rhai materion penodol a wynebir gan bobl ifanc y mae'n bwysig tynnu sylw atynt yma.

### a. Rhwystrau sy'n atal dileu digartrefedd ymysg pobl ifanc yng Nghymru

**Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru**

Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru (EYHC), cynghrair sy'n cael ei harwain gan Llamau, a lansiwyd yn 2017 ac sydd ers hynny wedi gwneud llawer iawn o ymchwil i'r rhwystrau sy'n atal dileu digartrefedd ymysg pobl ifanc yng Nghymru, yn ogystal ag argymhellion polisi penodol. Mae crynodebau byr wedi'u cynnwys yma, ac mae argymhellion pob adroddiad i'w gweld yn llawn yn Atodiad A.

- **Out on the streets: LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales –** Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio bod gorgynrychiolaeth o bobl ifanc LGBTQ+ yn y boblogaeth o bobl ifanc ddigartref, ac yn argymell bod angen cyfeiriad strategol ar raddfa genedlaethol a lleol.[24]
- **'Don't let me fall through the cracks'** – Mae'r adroddiad hwn ar ddigartrefedd ymysg pobl ifanc sydd â phrofiad o fod yn ddigartref yng Nghymru (2020)[25] yn nodi 13 o argymhellion ar gyfer ailystyried y systemau sydd mewn lle ar gyfer gadawyr gofal. Yn ddiweddar cyhoeddodd EYHC adolygiad o'r cynnydd tuag at argymhellion *'Don't let me fall through the cracks'*, gan nodi rhwystrau sy'n atal gweithredu'r

---

[24] https://www.llamau.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=1ab2fc66-c571-44f0-8ceb-2d1346f38303
[25] 'Don't let me fall through the cracks': Homelessness amongst care-experienced young people in Wales (EYHC, 2020)

argymhellion, tynnu sylw at yr arferion gorau a darparu ymateb i'r Peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol.[26]

- **Young People's Golden Rules of Temporary Accommodation** – Datblygwyd yr adnodd hwn ar y cyd â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sydd â phrofiad o ddigartrefedd.[27]
- **Roadmap to Ending Youth Homelessness in Wales** (2021) – Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth gan bobl ifanc er mwyn dileu digartrefedd ymysg pobl ifanc yng Nghymru.[28]
- **A Better Way Home** (2021) – Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar dri model Tai Cymunedol fel ffordd o atal digartrefedd ymysg pobl ifanc yng Nghymru, ac yn argymell y dylid datblygu a sefydlu rhwydwaith o westeion cymunedol ledled Cymru fel cynnig rhagweithiol i bobl ifanc ddigartref.[29]
- **Digwyddiadau Efelychiadau Dysgu o Brofiad Ieuenctid** (2022) – Nod yr efelychiadau hyn oedd dangos profiadau pobl ifanc pan fyddant yn ceisio cael cymorth gan systemau, megis gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau tai, ac maent yn ceisio helpu cyfranogwyr i ddeall pa mor gymhleth y gall fod i berson ifanc ganfod ei ffordd o gwmpas systemau cyhoeddus.

**Llety anaddas ac anghenion cymorth heb eu diwallu**

Cynhaliodd Shelter Cymru ymchwil i'r rhesymau y tu ôl i droi pobl ifanc allan i ddigartrefedd yng Nghymru yn 2019[30]. Thema gyffredin yng nghanfyddiadau eu hymchwil oedd y ffaith nad oedd pobl ifanc yn aml iawn yn cael eu lleoli yn y math o lety a oedd yn gweddu orau i'w hanghenion.

Llety â chymorth yn aml yw'r llwybr diofyn i dai ar gyfer pobl ifanc, p'un a oes arnynt angen lefel uchel o gymorth preswyl ai peidio. Gall hyn fod o ganlyniad i brinder tai fforddiadwy, anawsterau â gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau tai awdurdod lleol, a phrosesau dyrannu tai nad ydynt yn canolbwyntio digon ar yr unigolyn.

Mae ymchwil Shelter Cymru i droi allan hefyd yn dangos nad yw pobl ifanc mewn llety dros dro a llety â chymorth yn teimlo bod y cymorth sydd ar gael iddynt yn ddigonol neu'n ddigon dwys. Teimlai'r cyfranogwyr y gallai gwell comisiynu a chymhareb uwch o weithwyr cymorth i bobl ifanc atal y rhan fwyaf o'r problemau a rhoi sylw iddynt mewn modd cyfannol sy'n seiliedig ar drawma.

**Diffyg mynediad at dai cymdeithasol i bobl ifanc**

Mae ymchwil Shelter Cymru i droi allan, y cyfeiriwyd ato uchod, yn awgrymu bod pobl ifanc yn wynebu'r rhwystrau a ganlyn wrth geisio cael mynediad at dai cymdeithasol:

---

[26] Final+Don't+Let+Me+Fall+Through+The+Cracks+-+Report+Review.pdf (squarespace.com)
[27] Don't+Let+Me+Fall+Through+The+Cracks+-+Golden+Rules.pdf (squarespace.com)
[28] https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/149649/1/EYHC%20Roadmap%20Full%20Report.pdf
[29] https://static1.squarespace.com/static/5eec973487c9c707d4e46170/t/629f0fca9ed2b8104776605b/1654591435881/A+Better+Way+Home+-+Full+Report.pdf
[30] https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/End-youth-evictions_ENG.pdf

- Cyflenwad annigonol o letyau a rennir a lletyau un ystafell wely sy'n fforddiadwy i bobl ifanc.
- Rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gwrthod rhoi tenantiaeth i bobl dan 18 oed.
- Tuedd ymddangosiadol ymysg landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i fod yn gyndyn i gymryd risg. Disgrifiodd rhai o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil enghreifftiau o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gofyn am hanes ffeil achosion cymorth llawn person ifanc. Teimlid y byddai hyn wedi bod yn fuddiol os oeddent o ddifri yn ceisio nodi a deall anghenion cymorth y person ifanc er mwyn paratoi a rheoli'r denantiaeth. Fodd bynnag, roedd yr anghenion cymorth hyn yn aml yn cael eu gweld fel risg a oedd yn golygu nad oedd y person ifanc 'yn barod ar gyfer tenantiaeth.'

**Anhawster i ganfod ffordd o gwmpas systemau tai**

Mae ymchwil gan Stirling yn 2018 ar ymyriadau digartrefedd ymysg pobl ifanc yng Nghymru,[31] yn nodi ei bod yn anodd cael mynediad at wybodaeth gynhwysfawr am y cymorth tai sydd ar gael yng Nghymru. Mae'r Efelychiadau Dysgu o Brofiad Ieuenctid gan Llamau yn torri tir newydd yng Nghymru, ac maent hefyd yn pwysleisio'r anawsterau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yng Nghymru wrth geisio canfod eu ffordd o gwmpas y system cymorth digartrefedd.[32] Yn ogystal, mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi dweud bod gorfod ailadrodd eu stori er mwyn cael y cymorth y mae arnynt ei angen yn aml yn eu gorfodi i ail-fyw'r trawma.[33]

**Llwyth Achosion Cydlynydd Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc**

Fel rhan o'r cyllid Grant Cymorth Ieuenctid, mae awdurdodau lleol wedi penodi Cydlynydd Digartrefedd Ieuenctid wedi'i leoli yn y gwasanaeth ieuenctid, sy'n gweithio gyda'i gydweithwyr ym maes addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael eu canfod a'u cefnogi. Maent hefyd yn gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc ac athrawon fwy o ddealltwriaeth o ddigartrefedd a'u bod yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth.

Teimlai'r rhanddeiliaid a fu yn y sesiwn ymgysylltu ar-lein a drefnwyd gan Plant yng Nghymru bod y swyddi hyn wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar reoli argyfwng, ac o ganlyniad eu bod wedi methu â gweithredu ar yr ochr ataliol fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Er hyn, mae adroddiadau cynnydd Llywodraeth Cymru yn awgrymu, er bod y rolau hyn yn canolbwyntio mwy ar gymorth mewn argyfwng yn ystod y pandemig, bod newid i'w weld yn fwy diweddar i faes ymyrryd yn gynnar ac atal, a bod mwy o ymgysylltu ag ysgolion.

---

[31] Digartrefedd-pobl-ifanc-a-gadawyr-gofal-Mapio-ymyriadau-yng-Nghymru.pdf (wcpp.org.uk)

[32] Youth Experiential Learning Simulation Llamau - Missing People

[33] Don't+Let+Me+Fall+Through+The+Cracks+-+Full+Report+-+End+Youth+Homelessness+Cymru+09-2020.pdf (squarespace.com)

**Dull gweithredu sy'n ystyried y teulu cyfan**

Mae Centrepoint yn nodi'r dull gweithredu sy'n ystyried y teulu cyfan fel nodwedd bwysig er mwyn atal digartrefedd ymysg pobl ifanc.[34] Bydd ymchwil yn y dyfodol ar gyfryngu teuluol yng Nghymru yn dangos ei effeithlonrwydd fel offeryn i atal digartrefedd, ond bydd hefyd yn nodi nad yw ar gael yn eang ledled Cymru, ac yn gyffredinol nad yw ar gael i blant nes byddant yn 16 oed.[35]

**Amwysedd rhwng diffiniadau o berson ifanc sy'n 'Gadael Gofal' a pherson ifanc 'â Phrofiad o fod mewn Gofal'**

Gall camddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng person ifanc sy'n 'gadael gofal' a pherson ifanc 'â phrofiad o fod mewn gofal', yn unol â'r diffiniad yn Neddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y drefn honno, olygu bod rhai pobl ifanc yn cael eu 'dal yn y canol' rhwng dwy asiantaeth, a hynny o bosibl heb lety.

Yn ôl Deddf Tai Cymru, mae rhywun '*sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw bryd pan oedd o dan 18 oed*' yn cael ei ystyried fel person ag angen blaenoriaethol. Bydd y rheol hon yn gymwys cyhyd ag y bo'r person wedi cael ei letya gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol am gyfnod o 24 awr neu fwy cyn ei ben-blwydd yn 18 oed.

Fodd bynnag, yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rhaid i rywun sy'n gadael gofal fod wedi bod dan ofal yr Awdurdod Lleol am gyfnod o 13 wythnos o leiaf pan oedd rhwng 14 ac 16 oed.

Gan fod y diffiniad hwn o rywun sy'n gadael gofal yn nodi bod angen i'r unigolyn fod wedi bod mewn gofal am 13 wythnos, os oes ymholiad gan y gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn â pherson ifanc sy'n ddigartref a thros 18 oed, ond nad yw wedi profi gofal am 13 wythnos neu fwy (ond y gallai fod wedi profi gofal am lai na 13 wythnos), yr ateb i'r cwestiwn a yw'n berson ifanc sy'n gadael gofal ai peidio yw 'nac ydy'. Gallai hyn felly arwain at ddim statws blaenoriaeth a dim llety interim oherwydd bod tybiaeth nad yw wedi cael ei letya gan yr awdurdodau lleol ar unrhyw adeg.[36]

**Pontio i fyw'n annibynnol**

Mae ymchwil EYHC, *'Don't let me fall through the cracks'*, yn egluro y dylai plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, cyn iddynt adael gofal, gael cynghorydd personol sydd i fod i ddarparu cymorth ag opsiynau llety a chael mynediad at hawliadau megis budd-daliadau lles, yn

---

[34] https://centrepoint.org.uk/media/1699/prevention-what-works_full-report.pdf

[35] Papur sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, ond mae cyflwyniad ar y prif ganfyddiadau i'w weld yma: https://www.feantsaresearch.org/public/user/Observatory/2021/Research_Conference/Presentations/WS17_Rees.pdf

[36] Blog gan Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru https://www.endyouthhomelessness.cymru/voices/priority-need-care-leaver-or-care-experienced

ogystal â chymorth ag addysg, hyfforddiant a sgiliau bywyd nes bydd y person ifanc yn cyrraedd 25 oed (p'un a yw mewn addysg ai peidio). Fodd bynnag, disgwyliad yw hyn i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn hytrach na dyletswydd.

Disgrifiodd y bobl ifanc a gymerodd ran yn astudiaeth EYHC yr adeg yr oeddent yn troi'n 18 fel pwynt o ddirywiad, a chanfu ymchwil Shelter Cymru i droi pobl ifanc allan fod y pontio o ofal i lety â chymorth, ac o lety â chymorth i fyw'n annibynnol, yn newid rhy sydyn i lawer o bobl ifanc. Teimlid bod cymorth yn aml yn cael ei leihau'n sydyn yn hytrach na graddol.

**Cyfradd Llety a Rennir Credyd Cynhwysol**

Ar hyn o bryd mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu heithrio o'r Gyfradd Llety a Rennir (SAR) nes byddant yn 25 oed. Ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 25 mae elfen dai Credyd Cynhwysol yn cael ei chyfyngu i'r SAR isaf, sy'n golygu eu bod ddim ond yn gallu fforddio talu am ystafell mewn tŷ a rennir, sy'n amhriodol i lawer ac sy'n cyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at lety sefydlog. Roedd yr eithriad hwn yn arfer bod ar gyfer gadawyr gofal hyd at 22 oed, ond cafodd ei ymestyn i 25 oed yn 2021 gan Lywodraeth San Steffan.[37]

## d. Teuluoedd

Mae tystiolaeth yn dangos bod cael eu gorfodi i fod yn ddigartref yn achosi niwed i unigolion a theuluoedd, ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys niwed i iechyd meddwl, iechyd corfforol, perthnasoedd a lles, a mwy o angen am gymorth gwasanaethau cyhoeddus.[38] Oherwydd hyn, galwodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar dargedau tlodi plant a'u diwygio yn ei adroddiad yn 2020.[39]

**Llety anaddas**

Yn sesiwn rhanddeiliaid y Panel a drefnwyd gan Plant yng Nghymru, clywsom fod teuluoedd yn aml yn cael eu lleoli mewn llety dros dro y tu allan i'r ardal yn bell o ysgolion plant. Gall hyn gael nifer o ganlyniadau negyddol sy'n effeithio ar addysg a lles plentyn. Er enghraifft:

- Plant yn teithio'n bell i'r ysgol, ac o ganlyniad mae ganddynt lai o egni i ymwneud yn ystyrlon â gwaith ysgol a llai o amser i wneud gwaith cartref
- Plant yn teimlo eu bod ar wahân i grwpiau o gyfoedion
- Plant yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr neu yn absennol
- Rhieni'n hwyr yn dod i nôl eu plant o'r ysgol
- Plant yn gorfod symud ysgol, a hynny'n amharu ar eu haddysg ac yn rhoi llai o gyfleoedd i ysgolion fonitro lles a datblygiad academaidd plentyn.

---

[37] Don't+Let+Me+Fall+Through+The+Cracks+-+Full+Report+-+End+Youth+Homelessness+Cymru+09-2020.pdf (squarespace.com)
[38] Gweler er enghraifft Homeless Link, 'Impact of homelessness' darllenwyd 20 Ionawr 2020 ar https://www.homeless.org.uk/facts/understanding-homelessness/impact-of-homelessness
[39] Gweler Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Mawrth 2020 (llyw.cymru)

Codwyd y pwynt hefyd y gall cael eich lleoli mewn llety lle nad oes digon o breifatrwydd rhwng rhieni a phlant adael ei ôl yn emosiynol ar y rhieni a'r plant fel ei gilydd. O ystyried bod 'teulu yn chwalu' yn un o brif achosion digartrefedd, gellid gweld hyn fel agwedd negyddol ar y profiad presennol o ddigartrefedd fel teulu, a hefyd fel achos digwyddiadau digartrefedd i aelodau unigol y teulu yn y dyfodol.

**Unig rieni**
Unig rieni sydd â'r gyfradd dlodi uchaf ymysg oedolion o oed gweithio yn y DU, â 43% yn byw mewn tlodi.[40] O ganlyniad, mae unig rieni yn fwy tebygol o fod yn cael anhawster â chaledi ariannol a diffyg sicrwydd ynglŷn â llety. Yn Lloegr, cododd nifer y menywod mewn llety dros dro 88% rhwng 2011 a 2021, ac roedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o unig rieni. Adlewyrchir hyn hefyd yn y flwyddyn ddiwethaf o gasglu data cyflawn ar ffigurau statudol ar gyfer digartrefedd ymysg teuluoedd yng Nghymru, a oedd yn dangos mai aelwydydd unig rieni â phlant dibynnol oedd 32.3% o'r achosion o ddigartrefedd yn 2018-19.

Mae ymchwil yn awgrymu bod unig rieni yn fwy tebygol o gael anhawster â chostau tai a mynd ar ei hôl hi â thaliadau rhent, ac os yw'r unig riant yn fenyw, gall cam-drin domestig fod yn achos digartrefedd. Mewn ymchwil gan Shelter yn Lloegr yn 2021, dywedodd rhai o'r unig rieni a oedd wedi profi cam-drin domestig nad oeddent wedi gofyn am help oherwydd eu bod yn poeni y byddai eu plant yn cael eu cymryd oddi arnynt.

## 7. Pwyntiau i arwain trafodaeth

### Deddfwriaeth dai/digartrefedd greiddiol

1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth ar y cyd rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol i fynd i'r afael â digartrefedd. A allai canllawiau statudol helpu i ymwreiddio ymhellach ystyriaethau penodol ar gyfer cefnogi plant, teuluoedd a phobl ifanc sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd?
2. Sut allai newid deddfwriaethol helpu pobl ifanc i ganfod eu ffordd o gwmpas systemau tai yn well? A ddylid rhoi mwy o bwyslais ar ddyletswyddau i hysbysu pobl ifanc ynglŷn â'u hawliau a darparu mynediad at eiriolaeth?
3. Mae ymchwil wedi dangos yn gyson pa mor bwysig yw sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gymorth. Mae'r Panel wedi bod yn ystyried mewnosod dyletswydd i helpu i gynorthwyo unigolyn i gadw tenantiaeth. Pa ystyriaethau penodol allai fod yn ofynnol ar gyfer pobl ifanc o fewn dyletswydd o'r fath?
4. A ddylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth i'r gwahanol ddeongliadau o'r ystod oedran ar gyfer digartrefedd ymysg pobl ifanc er mwyn sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o gymorth ar gael i'r grŵp hwn?
5. A fyddai'n briodol defnyddio deddfwriaeth i weithredu'r argymhelliad a ganlyn gan Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru?

[40] Joseph Roundtree Foundation (2020) *UK Poverty* *2019/20: a comprehensive analysis of poverty trends and figures*.

*Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw berson ifanc 16 neu 17 oed yn cael ei roi mewn llety dros dro heb gymorth. Dylai pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n cysylltu ag awdurdod lleol i ddweud eu bod yn ddigartref, p'un a ydynt wedi cael profiad o fod mewn gofal ai peidio, gael llety â chymorth priodol, boed drwy brosiect tai â chymorth, lleoliad maeth, tŷ llety a chymorth neu leoliad tebyg â chymorth. Os oes angen llety tymor byr, er mwyn gwneud asesiadau a dod o hyd i lety priodol, rhaid iddo fodloni'r safonau gofynnol a nodwyd gan bobl ifanc yn yr adroddiad hwn, a dylid darparu cymorth ac amserlen i'r person ifanc ar gyfer yr adeg y bydd yn symud i lety sefydlog.*

6. Sut y gellid addasu'r prawf cysylltiad lleol er mwyn sicrhau ystyriaeth well o bobl ifanc y mae ffactorau penodol yn eu gwneud yn agored i niwed? Er enghraifft, pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc LGBTQ+?
7. A ddylid, fel sy'n cael ei awgrymu gan Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru (EYHC), rhoi dyletswydd ragweithiol i dimau opsiynau tai awdurdodau lleol yn nodi y dylent geisio canfod a oes gan berson ifanc brofiad o ofal pan mae'n cysylltu â hwy fel person ifanc sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd?

### Dyletswyddau ehangach

8. A ellid gofyn am adolygiad amlasiantaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dod i'r amlwg fel rhai sy'n ddigartref/o dan fygythiad o ddigartrefedd?
9. Sut allai ysgolion a gwasanaethau addysg gefnogi'r agenda ataliol ar gyfer digartrefedd ymysg pobl ifanc? Er enghraifft, a ellid rhoi dyletswydd ar staff addysg i gyfeirio achosion? A ddylid atgyfnerthu hyn â hyfforddiant i staff a systemau adnabod yn gynnar i helpu i adnabod myfyrwyr a allai fod mewn perygl?
10. Ar gyfer y rhai hynny sy'n gadael gofal cymdeithasol neu sefydliad diogel a ddylid cael dyletswydd i beidio â rhyddhau i ddigartrefedd? Beth allai'r ddyletswydd hon ei gynnwys?
11. Sut y gallai canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth helpu i ymwreiddio ymhellach ystyriaeth o anghenion tai wrth gynllunio cymorth a threfniadau pontio i'r rhai hynny sy'n gadael gofal cymdeithasol neu'r system cyfiawnder ieuenctid?
12. Mae Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru (EYHC) yn gwneud argymhellion clir mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n crynhoi ôl-ddyledion rhent. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i lobio Llywodraeth y DU am welliannau llesiant. Yn ogystal, mae'n argymell y dylai landlordiaid preifat fod â dyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol pan fydd tenantiaid yn mynd i ddyled. A yw'r rhain yn feysydd y byddai'r Panel yn dymuno eu hystyried?
13. A oes unrhyw ffyrdd y gallai deddfwriaeth roi gwell cymorth yn fwyaf arbennig i unig rieni, sy'n wynebu risg uchel o fod yn ddigartref?

**Sylwer:** Mae'r papur hwn hefyd yn codi pwyntiau penodol yn ymwneud â theuluoedd a phobl ifanc mewn cysylltiad â llety dros dro, addasrwydd llety a dyraniadau. Dylid ystyried y pwyntiau hyn yn y cyfarfod o'r Panel sydd wedi'i drefnu i drafod y meysydd pwnc hyn yn y dyfodol.

# Rhan 2: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae ail ran y papur hwn yn ceisio darparu gwybodaeth gefndir i'r Panel cyn ei drafodaeth ar ddeddfwriaeth digartrefedd a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae wedi'i rannu'n is-adrannau fel a ganlyn:

1. Deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a chyfredol yng Nghymru
2. Ymchwil a Thystiolaeth, yn ymwneud â'r canlynol:
    a) Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r cynnydd yn y risg o ddigartrefedd
    b) Llety mewn lloches
    c) Cyd-destun Cymreig digartrefedd sy'n cael ei achosi gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
    d) Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gynnydd wrth weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
    e) Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)
    f) Gwaith amlasiantaethol
    g) Tai yn Gyntaf i Fenywod
3. Ystyried dulliau o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a digartrefedd mewn gwledydd eraill
4. Pwyntiau i arwain trafodaeth

## 1. Deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a chyfredol yng Nghymru

Mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth (wedi'u datganoli a heb eu datganoli) sy'n effeithio ar fynediad goroeswr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol at lety a chymorth. Ceir amlinelliad byr o'r rhain isod.

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**[41]
Pwrpas y Ddeddf hon yw diogelu unrhyw blentyn, person ifanc neu oedolyn, sydd mewn perygl, neu sy'n profi unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella trefniadau ar gyfer atal, amddiffyn a chefnogi'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd, y cyfeirir ati fel Gofyn a Gweithredu,[42] ar y sector cyhoeddus i nodi a darparu cymorth arbenigol i'r rhai hynny sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae "Gofyn a Gweithredu" yn bolisi holi wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru, i'w ymarfer ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn adnabod trais

[41] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh
[42] Canllawiau Llywodraeth Cymru (2019) Darparu "Gofyn a Gweithredu" Rôl yr ymarferydd rheng flaen

yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[43] Mae'r term holi wedi'i dargedu yn disgrifio adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel ysgogydd i weithiwr proffesiynol ofyn i'w gleient a yw wedi cael ei effeithio gan unrhyw un o'r materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir drwy ganllawiau[44] bod hyn yn wahanol i ymholiad arferol, lle mae pob cleient yn cael ei sgrinio am brofiad posibl o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Datblygwyd y polisi a'r hyfforddiant i fynd gyda Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015, ac fel ymateb i argymhelliad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Sefydliad Iechyd y Byd y dylid cael system o holi clinigol wedi'i dargedu ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn adnabod cam-drin domestig yn well, ac o ganlyniad, ymateb iddo.[45]

Canfu'r adolygiad o Ddeddf 2015 fod swyddogion tai sy'n ymweld yn rheolaidd â thenantiaid a theuluoedd yn eu cartrefi yn gallu adnabod camdriniaeth a thrais yn y cartref yn well. Mae'r adroddiad yn priodoli hyn i ymwreiddio hyfforddiant, ac atgyfnerthu drwy ymgyrchoedd cenedlaethol fel ymgyrch y Rhuban Gwyn, sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth er mwyn gwneud trais a cham-drin domestig yn 'fusnes i bawb.'

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys llawer o ddiffiniadau (diffiniadau llawn yn Atodiad B) sy'n effeithio ar bwy sy'n gymwys i gael llety a chymorth.

Diffinnir cam-drin domestig fel '*cam-drin a ddaw o du person sy'n gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r dioddefwr*'. Mae'r Ddeddf yn nodi nad yw'r cysylltiad hwn yn gyfyngedig i bartneriaid sy'n cyd-fyw, a'i fod yn ymestyn i gynnwys unrhyw aelod o'r teulu, aelod (presennol neu flaenorol) o aelwyd person neu bobl a oedd yn arfer bod mewn perthynas agos â'i gilydd ond bod y berthynas agos honno wedi dod i ben erbyn hyn.

Diwygiodd **Deddf Tai (Cymru) 2014**[46] gyfrifoldebau awdurdodau lleol am atal a lleddfu digartrefedd, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu risg o gam-drin a thrais domestig.[47]

Ar hyn o bryd o dan y Ddeddf, mae person sy'n ddigartref o ganlyniad i ddioddef cam-drin domestig, ac unrhyw un (ar wahân i'r camdriniwr) sy'n byw gyda'r person hwnnw, neu y byddai'n rhesymol disgwyl y byddai'n byw gydag ef, yn un sydd ag angen blaenoriaethol am lety.[48] Nid oes rhaid i'r unigolyn ddangos ei fod yn agored i niwed.

Nid oes gan y Cyngor hawl i gyfeirio person at ardal arall os oes rhywun yn yr aelwyd yn wynebu risg o gamdriniaeth yn yr ardal honno. Mae hyn yn cynnwys cam-drin domestig ac

---

[43] Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru (2016) Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

[44] Canllawiau Llywodraeth Cymru (2017) Gweithredu "Gofyn a Gweithredu" Canllawiau i arweinwyr, cydgysylltwyr a rheolwyr mewn awdurdodau perthnasol

[45] Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively. NICE public health guidance 50 (Chwefror 2014)

[46] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/contents/enacted/welsh

[47] https://www.audit.wales/sites/default/files/VAWDASV_cym_11.pdf

[48]https://england.shelter.org.uk/professional_resources/legal/homelessness_applications/homelessness_in_wales/homelessness_priority_need_categories_in_wales#title-4

annomestig. Gall y term ‘cam-drin’ gynnwys trais, neu ymddygiad bygythiol neu godi braw. Bydd yn rhaid i’r cyngor y mae’r person wedi gwneud cais iddo helpu oni bai fod cysylltiad lleol ag ardal arall lle nad yw’r aelwyd yn wynebu risg o gamdriniaeth.[49]

Ni ddylai’r Cyngor ychwaith gyfeirio rhywun at ardal arall os oes ganddo ef neu hi gysylltiad lleol â’r ardal arall oherwydd cysylltiadau teuluol yn unig ac nad yw’r goroeswr yn dymuno bod yn agos at deulu. Hyd yn oed os oes gan geisydd digartref lety y gall ei feddiannu yn gyfreithlon, mae’r Ddeddf yn sicrhau y dylai Cyngor ei ystyried yn ddigartref o hyd os yw’n methu â byw yno oherwydd risg o gamdriniaeth (Adran 57).

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**[50] yn darparu fframwaith cyfreithiol er mwyn gwella llesiant oedolion a phlant sydd angen gofal a chymorth. Mae cynyddu gwasanaethau ataliol er mwyn atal angen critigol rhag cynyddu yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn mynd i’r afael â phroblemau, ac mae’r rhain yn cynnwys llawer o wasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr. Mae’r Ddeddf yn rhoi dyletswydd mewn cysylltiad â diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg. Mae thema diogelu yn codi drwy gydol y Ddeddf.

Mae Rhan 7 o’r Ddeddf yn cyfeirio’n benodol at weithdrefnau er mwyn diogelu ‘oedolyn sy’n wynebu risg’. Mae’r diffiniad hwn yn cynnwys oedolyn sy’n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu sy’n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.[51] Mae dyletswyddau sy’n gymwys i’r awdurdod lleol a dyletswyddau sy’n gymwys i ‘Bartneriaid Perthnasol’ awdurdod lleol. O fewn y Ddeddf rhestrir y partneriaid hyn fel (Adran 162)[52]

a) y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
b) unrhyw awdurdod lleol arall y mae’r awdurdod yn cytuno y byddai’n briodol cydweithredu ag ef o dan yr adran hon;
c) yr Ysgrifennydd Gwladol i’r graddau y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 o ran Cymru;
d) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae’n ofynnol iddo gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 weithredu fel partner perthnasol i’r awdurdod;
e) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;
f) Ymddiriedolaeth GIG sy’n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
g) Gweinidogion Cymru i’r graddau y maent yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;
h) unrhyw berson, neu berson o unrhyw ddisgrifiad, y bydd rheoliadau yn ei bennu.

Mae Rhan 7 o’r Ddeddf hefyd yn cynnwys:

---

[49] Local connection - Shelter Cymru
[50] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh
[51] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/part/7/welsh
[52] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/162/welsh

- **Dyletswydd i Wneud Ymholiadau (Adran 126)**. Rhaid i awdurdod lleol, os yw'n amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg: wneud ymholiadau; peri i eraill wneud ymholiadau; penderfynu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg; penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau, ac os dylid, pa gamau; cofnodi casgliadau mewn cynllun gofal a chymorth.
- **Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn (Adran 127)**. Gall Swyddog Awdurdodedig gael ei benodi gan yr awdurdod lleol i wneud cais i 'Ynad Heddwch' (*person wedi'i benodi gan y brenin i lywyddu dros achosion troseddol a sifil yng Nghymru a Lloegr*) am orchymyn. Mae'r gorchymyn yn rhoi hawl i'r Swyddog Awdurdodedig fynd i mewn i eiddo (gyda chwnstabl yr heddlu); siarad yn breifat; gwneud yn siŵr bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn rhydd; penderfynu a yw "oedolyn yn wynebu risg" a pha gamau y mae angen eu cymryd.
- **Dyletswydd i Hysbysu (Adran 128)**. Rhaid i Bartneriaid Perthnasol awdurdod lleol hysbysu eu hawdurdod lleol pan fydd ganddynt achos rhesymol i amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg yn eu hardal awdurdod lleol, neu mewn ardal awdurdod lleol arall, neu mewn ardal y mae'r oedolyn yn bwriadu symud iddi. Diffinnir Partneriaid Perthnasol yn Adran 162, fel y nodwyd uchod.

O ran **Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)**, mae Adran 35 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion cymwys, neu oedolion a allai fod yn anghymwys ond "bod yr awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwallu'r anghenion hynny er mwyn amddiffyn yr oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso." Mae cyfyngiadau ar y ddyletswydd hon. Er enghraifft, mae adran 46 yn amlinellu na chaiff oedolyn y mae adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 ("Deddf 1999") (gwahardd rhag budd-daliadau) yn gymwys iddo dderbyn cymorth dim ond oherwydd ei fod yn ddiymgeledd, neu oherwydd effeithiau corfforol bod yn ddiymgeledd. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd ddiogelu yn adran 126, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud ymholiadau a phenderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau os yw'n amau bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswylio yno fel arfer ai peidio) yn wynebu risg.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**[53] yn nodi saith nod llesiant ac yn cyflwyno egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n nodi sut y dylai cyrff cyhoeddus y cyfeirir atynt yn y Ddeddf weithio. Gyda'i gilydd, mae'r rhain i gyd yn bwysig o ran sut y mae cyrff cyhoeddus yn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn cefnogi goroeswyr.

O ganlyniad i gyhoeddi'r ddeddfwriaeth hon, cafodd Adran 5 (is-adran 5a sy'n ymwneud â chyhoeddi ac adolygu strategaethau lleol) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ei diweddaru i ddarllen:

> *Caniateir cyhoeddi strategaeth leol neu strategaeth ddiwygiedig drwy ei chynnwys o fewn cynllun llesiant lleol a gyhoeddir o dan adran 39 neu 44(5) o Ddeddf Llesiant*

[53] https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

*Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ill dau yn aelodau ohono.*

Mae **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**[54] yn sicrhau bod modd targedu'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig i'w troi allan er mwyn helpu i atal y rhai sy'n profi cam-drin domestig rhag mynd yn ddigartref.

Mae gweithredu'r Ddeddf, Pennod 5 wedi dod â mesurau newydd ar gontractau ar y cyd. Gellir ychwanegu neu ddileu deiliaid contractau ar y cyd o gontractau meddiannaeth heb fod angen diweddu un contract a dechrau un arall. Gall hyn helpu pobl sy'n profi cam-drin domestig drwy sicrhau bod modd targedu'r cyflawnwr ar gyfer ei droi allan.

Mae rhai grwpiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n gweithredu yn y trydydd sector, gan gynnwys Cymorth i Fenywod wedi amlinellu pryder y gallai natur symud tuag at gontractau tymor hwy, mwy diogel arwain at ganlyniadau negyddol ac anfwriadol i lochesi, a fwriadwyd er mwyn darparu llety dros dro.[55] Mae goroeswyr sydd mewn llochesi yn aml ar drwydded. Os yw goroeswr neu deulu yn aros mewn lloches am fwy na chwe mis, bydd yn ofynnol i wasanaethau roi contract meddiannaeth iddynt. Y prif bryderon yw:

- Gall fod yn anos i oroeswr gael mynediad at gymorth digartrefedd os bernir ei fod mewn llety sefydlog oherwydd ei fod ar gontract.
- Bydd contractau yn rhwystr a fydd yn atal gwasanaethau rhag adleoli goroeswyr i loches wahanol, er enghraifft, os bydd y cyflawnwr yn dod yn ymwybodol o leoliad y lloches.

Mae **Deddf Cam-drin Domestig 2021 (y Deyrnas Unedig)** yn gymwys i Gymru a Lloegr. Mae'n cyflwyno Hysbysiad Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPN) sifil newydd i ddarparu amddiffyniad ar unwaith yn dilyn digwyddiad cam-drin domestig, a Gorchymyn Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPO) sifil newydd i ddarparu amddiffyniad hyblyg, tymor hwy i ddioddefwyr. Gall Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig roi gwaharddiadau a gofynion penodol i gyflawnwyr a'i gwneud yn ofynnol i gyflawnwyr roi gwybod am unrhyw newid i'w cyfeiriad.

**Canllawiau**

Mae cymorth tai i oroeswyr yn cael ei groesgyfeirio mewn dogfennau canllaw cenedlaethol amrywiol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru:

- Mae *Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Canllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol*[56] Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys gwasanaethau opsiynau tai wrth ddatblygu strategaethau

---

[54] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/1/contents/welsh

[55] Gweler llythyr gan Cymorth i Fenywod Cymru at Lywodraeth Cymru, Rhagfyr 2022 Welsh-Womens-Aid-Renting-Homes-Act-Open-Letter.pdf (welshwomensaid.org.uk)

[56] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Canllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol, gweler yma canllawiau-ar-gyfer-strategaethau-lleol.pdf (llyw.cymru)

lleol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hefyd yn nodi:

*"Dylai asesiad effeithiol o anghenion ddwyn ynghyd ddata lleol, tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol a goroeswyr, ac ymchwil ac arferion gorau adolygiadau. Gallai'r ffynonellau gynnwys: data ansoddol a meintiol gan wasanaethau cyhoeddus – yn fwyaf arbennig gofal cymdeithasol, tai a digartrefedd." (Tudalen 8).*

- Mae canllawiau 2016 ar hyfforddiant cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (*Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllawiau statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)*[57] yn nodi bod gwasanaethau tai yn grŵp a ddylai gael blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant ar y ddyletswydd Gofyn a Gweithredu.

- Mae'r *Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru*[58], a gyhoeddwyd yn 2019, yn amlinellu pwysigrwydd cydlynu ag adrannau tai wrth gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu gomisiynu gwasanaethau ar y cyd. Mae'n nodi:

  *"Yn ogystal â gwasanaethau VAWDASV arbenigol lleol, bydd swyddogaethau comisiynu eraill hefyd fel camddefnyddio sylweddau, tai, iechyd meddwl, gwaith gyda chyflawnwyr, a phlant a phobl ifanc, lle bydd arferion da ar gael. Bydd hyn yn gyfle i rannu data'n briodol ac i chwilio am ffyrdd o gyflwyno comisiynu ar y cyd ar gyfer gwahanol anghenion thematig er mwyn darparu gwasanaethau integredig." (Tudalen 16).*

## 2. Ymchwil a thystiolaeth

### a. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a chynnydd yn y risg o fod yn ddigartref

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yn ffactorau arwyddocaol sy'n cyfrannu tuag at geisiadau digartrefedd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.[59] Mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o wynebu risg o fod yn ddigartref gan ei bod yn bosibl y bydd angen iddynt adael cartref yn sydyn yn ogystal â dianc o'r ardal y maent yn gyfarwydd â hi a'u rhwydweithiau cefnogi.

---

[57] Gweler sub-ld10514-w.pdf (senedd.wales)

[58] Gweler canllawiau-statudol-ar-gyfer-comisiynu-gwasanaethau-vawdasv-yng-nghymru.pdf (llyw.cymru)

[59] https://www.unwomen.org/en/news/in-focus/in-focus-gender-equality-in-covid-19-response/violence-against-women-during-covid-19

Gallai goroeswyr sydd wedi profi ymddygiad rheolaethol hefyd fod â mynediad cyfyngedig at gyllid, ac o ganlyniad, efallai na fydd ganddynt y modd i ddod o hyd i lety amgen ac y bydd arnynt angen cymorth tai. Mae hyn hefyd yn wir am oroeswyr sydd â chysylltiadau ariannol ag eiddo y maent yn ei rannu â phartner camdriniol. Mae diffyg llety amgen yn aml yn achosi i fenywod aros mewn perthnasoedd treisgar neu fynd yn ôl iddynt.

Mae Monitor Digartrefedd Prydain 2022[60] yn dangos bod nifer yr aelwydydd, yn Lloegr, sy'n dweud mai prif achos eu digartrefedd yw cam-drin domestig wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall rhwng 2018/19 a 2020/21. Yn yr Alban, mae'r nifer a oedd yn dweud mai cam-drin domestig oedd y prif reswm dros eu cais digartrefedd wedi aros yn weddol debyg. Yng Nghymru hefyd, er nad oes data llawn, dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn gweld cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn cysylltu i gael cymorth digartrefedd oherwydd cam-drin domestig, yn enwedig yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19.[61]

Mae astudiaeth a gwblhawyd yn ddiweddar gan y Ganolfan Effeithiau Digartrefedd yn dangos bod mwy o fenywod nag o ddynion yn cael eu heffeithio gan drais[62] ac mae llawer o dystiolaeth yn awgrymu bod trais yn ffactor cyffredin sy'n achosi digartrefedd ymysg menywod a bod cyfran uchel o'r menywod sy'n ddigartref wedi profi trais sy'n seiliedig ar rywedd. Canfu astudiaeth yn 2016 fod menywod, os ydynt yn cysgu ar y stryd, yn fwy tebygol na dynion o gael eu cam-drin (yn eiriol, yn gorfforol neu'n rhywiol).[63]

Mae adroddiad gan Safe Lives yn dweud bod menywod sy'n cysgu ar y stryd yn debygol iawn o gael eu hanghofio gan eu bod yn tueddu i beidio â 'gwneud eu gwely' yn weledol yn y ffyrdd sy'n cael eu cofnodi fel arfer gan gyfrifon swyddogol.[64] Mae ystadegau o Loegr[65] yn amcangyfrif bod 13% o'r holl bobl sydd wedi'u cofnodi fel rhai sy'n cysgu allan yn fenywod. Nid oes amcangyfrifon cenedlaethol o nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn yr Alban ar hyn o bryd,[66] ac nid yw data cymharol ar gyfer Cymru yn cofnodi rhywedd ar hyn o bryd.[67]

Mae pryderon bod y diffyg data presennol yn golygu y gallai'r darlun o drais a'r rhai sy'n profi digartrefedd o ganlyniad i hynny fod yn anghyflawn. Roedd ymateb gan Cymorth i Fenywod Cymru i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn mynegi pryder ynglŷn â'r mathau niferus o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r gwahanol amgylchiadau lle maent yn amlygu eu hunain, sy'n dal heb dystiolaeth neu ddata pendant ar eu cyfer, yn enwedig data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.[68] Roedd y rhain yn cynnwys:

[60] Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., McMordie, L., Pawson, H. a Young, G. (2022) The homelessness monitor: Great Britain 2022 tt.59-61
[61] Fitzpatrick, S. et al (2022) The homelessness monitor: Great Britain 2022. Crisis: Llundain.
[62] Bimpson, E., Green, H. a Reeve, K. Centre for Homelessness Impact (2021) Women, homelessness and violence: what works
[63] Sanders, B. ac Albanese, F. (2016) *"It's no life at all": Rough sleepers' experiences of violence and abuse on the streets of England and Wales*.
[64] Safe Lives (2018) Safe at Home: Homelessness and domestic abuse t.19
[65] https://www.gov.uk/government/statistics/rough-sleeping-snapshot-in-england-autumn-2021/rough-sleeping-snapshot-in-england-autumn-2021#demographics
[66] https://osr.statisticsauthority.gov.uk/homelessness-and-rough-sleeping-statistics-in-the-uk/
[67] https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-tachwedd-2022
[68] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/WW267A1.pdf

- Pobl hŷn
- Plant a phobl ifanc, yn enwedig trais rhwng plentyn a rhiant yn ei arddegau, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- Y rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF)
- Camfanteisio'n rhywiol ar oedolion
- Cymunedau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru
- Nodweddion gwarchodedig, yn enwedig effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a hygyrchedd gwasanaethau cymorth i bobl fyddar/anabl, pobl LGBTQ+ a phobl o gefndiroedd Du ac ethnig
- Siaradwyr ieithoedd eraill.

### b. Llety mewn lloches

Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn dweud bod llochesi yn chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.[69] Yn ogystal â darparu lloches mewn argyfwng, mae llawer o lochesi yn cynnig rhaglen wedi'i chynllunio o gymorth therapiwtig ac ymarferol a mynediad at gymorth gan oroeswyr eraill.

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020[70] fod model lloches confensiynol yn cynnwys manteision i'r goroeswr, megis diogelwch ac anonymedd, mynediad at gymorth gan gymheiriaid a chymorth dwys ar y safle, ond cyfeiriodd hefyd at heriau â'r model presennol. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys y posibilrwydd o orfod symud oddi wrth rwydweithiau cefnogi, rheolau tŷ a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch yn gwneud i rywun deimlo nad oes ganddo reolaeth dros ei fywyd, a mwy o straen os nad yw'r perthnasoedd â chymheiriaid yn rhai cadarnhaol.

Mae menywod sy'n ddigartref ac sydd â nifer o anfanteision croestoriadol (megis problemau iechyd meddwl neu broblem defnyddio cyffuriau) yn wynebu mwy o rwystrau wrth geisio cael mynediad at gymorth arbenigol i fenywod i'w helpu i wella ar ôl camdriniaeth a thrawma.[71] Yn achos menywod sydd â nifer o anghenion croestoriadol, mae'n bosibl na fydd llwybrau mwy traddodiadol at lety, er enghraifft lloches, ar gael iddynt, neu na fyddant yn addas i ddiwallu eu hanghenion. Er bod llochesi yn chwarae rôl hollbwysig, mae'n bwysig sicrhau hefyd bod cymorth cymunedol i'r grŵp hwn.

**Rhwystrau sy'n atal mynediad at loches**

Mae adroddiad gan Cymorth i Fenywod yn Lloegr[72] yn nodi'r canlynol fel rhai o'r prif rwystrau a allai atal goroeswyr rhag cael mynediad at loches:

- Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF);
- methu â chefnogi anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl;
- methu â chefnogi anghenion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

---

[69] Cymorth i Fenywod Cymru (2020) Time to Act on Sustainability t.8
[70] Adisa, O., Allen, K., Costello, F. a Meehan, A. (2020). A scoping review of refuge provision models. Prifysgol Suffolk.
[71] FEANTSA (2022) Housing First and Women: Case studies from across Europe
[72] Women's Aid Federation England (2022) Nowhere to Turn, t.11

Mae adroddiad gan Cymorth i Fenywod Cymru yn awgrymu bod cyfran sylweddol o oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn 2020/21, yn methu â chael mynediad at wasanaethau VAWDASV arbenigol (gwasanaethau lloches a gwasanaethau cymunedol) yng Nghymru oherwydd prinder adnoddau a diffyg capasiti. Cyfeiriodd yr elusen at gynnydd o 22% (cyfanswm o 692 o oroeswyr) yn nifer y goroeswyr na allai'r lloches eu cefnogi oherwydd diffyg capasiti neu adnoddau, o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.[73]

Dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru hefyd eu bod wedi gweld cynnydd yn 2021[74] o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn nifer y llochesi a oedd yn methu â darparu llety i oroeswyr am y rhesymau a ganlyn:

- Methu â diwallu anghenion cymorth (yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol) (27%)
- Methu â diwallu anghenion cymorth (yn ymwneud ag iechyd meddwl) (61%)
- Y goroeswr â hawl gyfyngedig/heb hawl i gyllid cyhoeddus (29%)

Yn 2018/2019, roedd 1154 o blant a phobl ifanc yn byw mewn llochesi argyfwng ar ryw adeg neu'i gilydd yn ystod y cyfnod hwnnw.[75] Mae adroddiad *State of the Sector* gan yr elusen yn dangos sut y gwnaeth gwasanaethau cymorth mewn lloches, yn ôl data aelodaeth yr elusen, gefnogi 283 o blant bob chwarter, sy'n dangos bod nifer fawr o blant mewn lleoliadau lloches o hyd yn ystod y pandemig mewn cyfnod pan nad oedd llawer o fynediad at weithwyr cefnogi plant arbenigol.

Er bod goroeswyr yn cael eu lleoli mewn cymunedau gan yr awdurdod lleol, gwelwyd enghreifftiau o "*ymarfer gwael ac anystyriol*", yn enwedig yn achos goroeswyr yn cael eu lleoli yn agos at gyflawnwyr troseddau. Roedd adroddiad yr Ombwdsmon ar ddigartrefedd yng Nghymru[76] yn nodi:

> *"Roedd yn dorcalonnus gweld nifer o achosion lle'r oedd dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu lleoli mewn eiddo ger y cyflawnwyr neu bobl sy'n gysylltiedig â'r cyflawnwyr."*

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at enghreifftiau o achosion penodol a oedd yn cynnwys cleientiaid yn cael eu lleoli mewn eiddo yn agos at gyn-bartneriaid treisgar,[77] er bod y swyddog achos yn gwybod am y broblem ymlaen llaw. Nid yw hyn yn cyflawni dyletswyddau i ddarparu llety addas ac mae'n dangos angen posibl i reoleiddio'r broses.

Er hyn, nododd yr Ombwdsmon hefyd enghreifftiau o ymarfer da lle'r oedd gwasanaethau digartrefedd eraill yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau ymyriad cynnar lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Roedd hyn yn cynnwys cydleoli cynrychiolwyr o Shelter Cymru, The Wallich, Cymdeithasau Tai, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Cam-drin

---

[73] Cymorth i Fenywod Cymru (2021) A Strategy for Sustainable Support

[74] Cymorth i Fenywod Cymru (2021) A Strategy for Sustainable Support, t.7

[75] Adroddiad Aelodaeth Blynyddol Cymorth i Fenywod Cymru 2018-19

[76] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol

[77] https://www.equalityhumanrights.com/en/human-rights-act/article-8-respect-your-private-and-family-life#:~:text=Article%208%20protects%20your%20right,and%20emails%2C%20for%20example).

Domestig yn y Gwasanaeth Opsiynau Tai er mwyn darparu cymorth a chyngor ar faterion yn ymwneud â thai, digartrefedd a dyled yn y fan a'r lle.

### c. Cyd-destun Cymreig digartrefedd sy'n cael ei achosi gan VAWDASV

Yng Nghymru, dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, y bwriad yw diogelu unrhyw blentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n wynebu risg, neu sy'n profi unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, trais sy'n seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae hyn yn wahanol iawn i wledydd eraill y DU y mae eu deddfwriaeth, er ei bod yn cyfeirio at drais rhywiol, yn canolbwyntio'n bennaf ar gam-drin domestig.[78, 79]

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn achos a chanlyniad anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion,[80] sy'n croestorri â ffactorau megis ethnigrwydd, oedran, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd i effeithio ar brofiadau o gam-drin a llwybrau tuag at adferiad. Mae strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol[81] yn cydnabod pwysigrwydd y dulliau croestoriadol hyn. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi y bydd yn cael ei darparu ochr yn ochr â'r Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd:

> *Mae'n rhaid i ddarparu tai dros dro a pharhaol o ansawdd da, yn ogystal â diogelu hawliau tai y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, chwarae rhan bwysig yn ein hymateb.*

Mae gan y strategaeth amcan penodol o ymyrryd yn gynnar ac atal, a bennwyd er mwyn bod yn gydnaws â phwrpas ac 'ysbryd' Deddf Tai (Cymru) 2014.

Mae *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu lefel uchel 2021-2026* hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru "yn gweithio i ddatblygu, diwygio neu wella'r broses o roi llwybrau ar waith â chymorth wedi'i deilwra, ymyriadau priodol a datrysiadau tai i grwpiau sy'n wynebu risg o niwed," gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[82]

### d. Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd o ran rhoi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar waith

Roedd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru[83] o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a gyhoeddwyd yn 2019, yn cynnwys ystyriaeth o

[78] Deddf Cam-drin Domestig 2021
[79] Deddf Cam-drin Domestig (Yr Alban) 2018
[80] https://hdr.undp.org/content/violence-against-women-cause-and-consequence-inequality
[81] Llywodraeth Cymru (2022) Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026
[82] Gweler Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026 (llyw.cymru), t.21.
[83] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith

anghenion tai y grŵp hwn. Canfu fod y broses o weithredu'r Ddeddf wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn y meysydd a ganlyn:

- Roedd y broses o gyflwyno hyfforddiant cenedlaethol yn gweld rhywfaint o lwyddiant drwy wella ymwybyddiaeth gweithwyr y sector cyhoeddus o faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Yn gyffredinol, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud bod landlordiaid tai cymdeithasol yn gweithio'n dda er mwyn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr.
- Roedd y Swyddfa Archwilio yn teimlo bod y Ddeddf yn helpu i hybu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a bod cydweithredu yn gweithio'n dda mewn rhai rhannau o'r wlad.

Er hyn, canfu'r adolygiad hefyd fod goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn wynebu rhwystrau o hyd, er enghraifft rhannu data a gweithio gyda chyflawnwyr troseddau. Roedd yr adroddiad yn dweud mai gwaith gyda chyflawnwyr oedd y maes mwyaf heriol a gwannaf mewn gweithgarwch atal.

**Rhannu data**

Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru[84] y byddai'n disgwyl gweld asiantaethau yn cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau VAWDASV integredig â llwybrau clir a dileu unrhyw ddyblygu. Mae hyn yn galw am ddulliau effeithiol o rannu gwybodaeth a data o fewn partneriaid a rhwng gwahanol bartneriaid, ac am arweinyddiaeth leol a rhanbarthol sy'n deall manteision cydweithio ac yn hybu cydweithredu yn unol â hynny. Er hyn, mae'r adroddiad yn dweud bod tystiolaeth ar hyn o bryd yn awgrymu bod rhannu gwybodaeth yn parhau'n rhwystr sy'n atal gwelliant mewn cydweithredu lleol a rhanbarthol. Yn fwyaf arbennig, mae cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ym mis Mai 2018 wedi amlygu'r tensiynau hyn yn fwy fyth ac mae'n cael ei weld gan rai fel rhwystr sy'n atal cynllunio, integreiddio a chydweithredu.

Dywedodd un sylwebydd fod gan staff "ofn rhannu gwybodaeth oherwydd GDPR ac mae hyn yn broblem fawr. Dyw rhannu trawsadrannol ddim yn digwydd – mae gweithwyr cymdeithasol yn gwrthod rhannu rhifau ffôn dioddefwyr cam-drin domestig yn fewnol." O ganlyniad, mae sefydlu protocolau rhannu data a'u heffeithiolrwydd yn amrywio'n fawr, ac yn aml iawn nid yw asiantaethau allweddol yn rhan o gytundebau, fel y nodwyd yn arolygon yr adroddiad.

[84] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith

**Gweithio gyda chyflawnwyr**

Mae tai a chymorth priodol i gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn ffactor pwysig yn niogelwch y goroeswr. Gallai'r ymyriad iawn sicrhau bod cam-driniaeth yn dod i ben ac arwain at ddiogelwch i'r goroeswr.

Roedd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Ddeddf 2015 yn dweud:

> *"Mae awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd adsefydlu cyflawnwyr, ond mae'r ddarpariaeth o ran rhaglenni seiliedig-ar-dystiolaeth ledled Cymru yn hynod amrywiol. Er enghraifft, mae gwaith gyda chyflawnwyr yn aml yn canolbwyntio ar ymyriadau byrdymor, yn gyfyngedig i ardaloedd penodol, yn waith â chapasiti cyfyngedig, ac yn tueddu i ganolbwyntio ar ddynion yn unig heb gydnabod bod menywod yn gallu bod yn gyflawnwyr. Nododd un sylwebydd fod 'angen cryf am raglen (genedlaethol) ar gyfer cyflawnwyr' o ystyried amrywioldeb y ddarpariaeth gyfredol. O'n harolwg o gyrff cyhoeddus, canfuom fod 75% o sefydliadau'n teimlo eu bod yn adnabod cyflawnwyr posibl, ond mai dim ond 20% sy'n gallu darparu gwasanaethau priodol ar gyfer cyflawnwyr ac mai dim ond 20% sy'n teimlo'u bod yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo gwasanaethau ar gyfer cyflawnwyr, codi ymwybyddiaeth ohonynt a chyfleu eu pwysigrwydd."*

Mae adroddiad *State of the Sector* Cymorth i Fenywod Cymru yn 2020 yn ategu'r alwad hon am 'raglenni achrededig ar gyfer cyflawnwyr'[85] gan nodi sut y gall rhaglenni o'r fath, os ydynt yn cael eu gweithredu mewn ffordd adeiladol, wella diogelwch goroeswyr ac o bosibl atal achosion o gam-drin yn y dyfodol. Er hyn, mae'r adroddiad hefyd yn dweud, er bod nifer o wahanol raglenni, ymyriadau a phrosiectau'n cael eu darparu yng Nghymru ar hyn o bryd, bod y gwaith hwn yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar gam-drin domestig, a'i bod yn amlwg bod prinder ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr sy'n ymdrin â'r mathau amrywiol o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Rôl Landlordiaid Cymdeithasol wrth gynorthwyo goroeswyr i gadw llety**

Mae canfyddiadau o gyfweliadau ac arolygon cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos bod landlordiaid tai cymdeithasol mewn sefyllfa dda i allu adnabod dioddefwyr a chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr sy'n byw yn eu heiddo.[86] Yn wir, dywedodd pob landlord a ymatebodd i arolwg yr archwiliad ei fod yn darparu mesurau diogelwch gwell er mwyn cefnogi a diogelu dioddefwyr. Yn y cyfamser, dywedodd bron i ddau o bob tri a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cefnogi pobl a oedd yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a oedd ag ôl-ddyledion rhent i drosglwyddo i lety amgen.

[85] Cymorth i Fenywod Cymru (2020) State of the Sector 2020: The COVID-19 pandemic and the case for immediate sustainable funding
[86] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith, tt. 29-30

Roedd yr adroddiad yn amlinellu arferion da o ran sut y mae landlordiaid yn ceisio seilio eu hymateb a'u datrysiad ar drafodaethau gyda dioddefwyr a chytuno ar gamau gweithredu ar y cyd â nhw.

Er hyn, canfu'r adolygiad hefyd feysydd yr oedd yn eu hargymell ar gyfer gwelliant mewn cysylltiad â'r cymorth y mae landlordiaid cymdeithasol yn ei ddarparu i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Canfu'r adolygiad fod llai na hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r graddau yr oedd materion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar denantiaid. Yn ychwanegol at hyn, dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr fod ganddynt bolisi VAWDASV ar gyfer gweithwyr, a dim ond 22% o'r landlordiaid oedd wedi darparu hyfforddiant i'w holl staff i'w helpu i adnabod arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymysg tenantiaid. Er bod 44% wedi dweud bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant, dywedodd 35% mai dim ond staff rheng flaen sy'n dod i gysylltiad â thenantiaid yn rheolaidd, megis gweithwyr cefnogi, swyddogion tai neu syrfewyr adeiladu sy'n cael hyfforddiant.

Yn ôl adolygiad annibynnol yn 2014 o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru[87] roedd anawsterau wrth geisio dod o hyd i lety diogel yn achosi pryder i fenywod nad oedd ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ac i fenywod mewn cyflogaeth am dâl. Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cytuno ei bod yn anodd dod o hyd i lety amgen a fforddiadwy, a bod angen mwy o ymwybyddiaeth o anghenion tai teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig. Nid oes newidiadau arwyddocaol wedi bod yng Nghymru sy'n ei gwneud yn haws i oroeswyr o'r grwpiau hyn gael mynediad at dai, ac mae rhanddeiliaid yn tynnu sylw at hyn o hyd.

Er bod rhywfaint o ganllawiau ar ddyletswydd awdurdodau lleol i ddod o hyd i lety i oroeswyr trais a chamdriniaeth yng Nghymru, nid ydynt yn cynnwys llawer o fanylder. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety i aelwydydd digartref,[88] yn nodi:

> *Gall pobl o unrhyw rywedd ac o unrhyw oed gael eu cam-drin. Dylai awdurdodau ystyried a yw ceiswyr sydd wedi dioddef, neu sy'n wynebu risg, er enghraifft, o ddigwyddiadau casineb neu droseddau casineb oherwydd eu rhywedd, problemau iechyd corfforol neu feddyliol, hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedligrwydd, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol, yn agored i niwed yn unol â'r diffiniad yn Adran 71.*

Gan nad oes llawer o ddata am ddyrannu tai yng Nghymru, nid ydym yn gwybod faint o dai cymdeithasol sy'n cael eu dyrannu i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n profi digartrefedd.

[87] Berry, V., Stanley, N., Radford, L., McCarry, M. a Larkins, C. (2014) Building Effective Responses: An Independent Review of Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Services in Wales
[88] Canllawiau Llywodraeth Cymru (2016) ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd

### e. Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)

Mae bod heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) yn rhwystr difrifol i oroeswyr sy'n profi trais a chamdriniaeth sydd â statws mewnfudo cyfyngedig neu ansicr yn y DU. Mae llawer o gyrff yn y sector digartrefedd a'r sector VAWDASV arbenigol yn dweud bod hwn yn faes y mae'n rhaid ei ystyried fel rhan o gynllun i ddileu digartrefedd yn llwyr yng Nghymru. Mae ymchwil gan Gomisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr yn dangos y bydd camdrinwyr yn defnyddio statws mewnfudo ansicr dioddefwyr er mwyn arfer rheolaeth drostynt.[89]

Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19, cododd Gweinidogion gyfyngiadau ar bot penodol o arian a oedd yn galluogi gwasanaethau i gefnogi goroeswyr nad oedd ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus.[90] Yn ystod y cyfnod clo, dywedodd 50% o'r gwasanaethau arbenigol eu bod wedi cefnogi un neu ragor o fenywod nad oedd ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus.[91] Mae Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau diogelwch a chefnogaeth i oroeswyr nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ar ôl COVID â chronfa benodedig ar gyfer gwasanaethau.[92]

Mae menywod sydd â statws mewnfudo ansicr, neu y mae eu statws mewnfudo yn ddibynnol ar gymar neu gyflogwr, yn aml yn wynebu mwy o risg o drais a chamfanteisio.[93, 94] Maent yn wynebu amgylchedd gelyniaethus gan fod gwiriadau mewnfudo yn digwydd mewn lleoliadau gofal iechyd, mamolaeth, addysg a thai; maent yn cael eu hatal rhag cael mynediad at amddiffyniad a chymorth oherwydd eu statws NRPF ac maent yn wynebu risg o gael eu cadw a'u halltudio yn hytrach na'u helpu os ydynt yn dweud eu bod yn cael eu cam-drin.

Drwy ein sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein i roi cyngor i'r panel adolygu arbenigol ar faterion VAWDASV, dywedwyd hefyd bod achosion wedi bod lle mae mamau nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus wedi gofyn am gymorth gan awdurdodau lleol, ac yn dilyn hynny bod eu plant wedi cael eu cymryd oddi arnynt. Mae astudiaethau achos fel y rhain yn atal menywod eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg rhag gofyn am gymorth.

Fel y nodwyd yn barod, mae dyletswyddau penodol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n caniatáu i wasanaethau cymdeithasol gefnogi oedolion sy'n wynebu risg o drais neu gamdriniaeth hyd yn oed os nad oes ganddynt hawl i

---

[89] Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021) Improving pathways to support for migrant victims of domestic abuse

[90] https://llyw.cymru/10-miliwn-o-gymorth-brys-ar-gyfer-pobl-syn-cysgu-allan-yng-nghymru-yn-ystod-coronafeirws

[91] Cymorth i Fenywod Cymru (2020) Impact of COVID 19 on Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Specialist Service: June Report

[92] Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) Y fframwaith o bolisïau, dulliau gweithredu a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd) tt.34

[93] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/No-Recourse-to-Public-Funds-%E2%80%93-Welsh-Womens-Aid-Briefing-for-MSs.pdf

[94] BAWSO (2021) Annual Report: Changing Lives

gyllid cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes llawer o ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ychwanegol ar wasanaethau cymdeithasol (adran 126(1)).

Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi cynhyrchu pecyn cymorth 8 cam[95] sy'n helpu gwasanaethau arbenigol i herio penderfyniad a oes modd cynorthwyo person sy'n dweud ei fod yn ddigartref ac sy'n wynebu risg o drais neu gamdriniaeth.

Roedd adroddiad gan [Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd](#) yn dilyn [ymchwiliad](#) i [Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac anghenion menywod mudol](#) yn dangos:[96]

- Bod statws mewnfudo menyw yn gallu cyfyngu ar ei mynediad at gymorth hanfodol, gan gynnwys lle mewn llety â chymorth arbenigol.
- Bod menywod mudol sy'n cael eu cam-drin, ac sy'n ddarostyngedig i'r amod NRPF, yn aml yn dal i fyw gyda'r cyflawnwr gan nad ydynt yn cael cynnig llety diogel.
- Y gallai gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn well sicrhau bod y rhan fwyaf o'r menywod mudol nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus yn gallu cael mynediad at lety diogel a chymorth.
- Bod menywod mudol yn aml yn cael eu hatal rhag dweud eu bod yn cael eu cam-drin oherwydd eu bod yn ofni y bydd eu data a'u gwybodaeth mewnfudo yn cael eu rhannu â'r Swyddfa Gartref – cam a allai arwain at gamau gorfodi yn eu herbyn.

Efallai hefyd y byddai'r Panel yn hoffi nodi bod adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru lobïo "Llywodraeth y DU i ganiatáu i oroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol nad ydynt yn gallu cael arian cyhoeddus i gael mynediad at wasanaethau tai a chymorth."[97]

Yn yr Alban, mae'r prosiect ASSIST[98] wedi datblygu cytundeb cyflawni gwasanaeth er mwyn darparu cymorth cyfreithiol yn ymwneud yn benodol â rhywedd a chefnogaeth i fenywod mudol sydd wedi cael eu masnachu. Mae hyn yn ymwneud â meysydd cymorth cyfreithiol ac ymarferol, mynediad at lety diogel a phriodol, a chymorth i integreiddio yng nghyswllt mynediad at addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith.

### f. Gwaith Amlasiantaethol

Un o'r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i annog gwaith amlasiantaeth yng Nghymru yng nghyswllt goroeswyr trais a chamdriniaeth yw Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). Cyfarfodydd amlasiantaethol yw'r rhain lle mae cynrychiolwyr asiantaethau statudol a gwirfoddol yn rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr risg uchel cam-drin domestig ac yna'n creu ymateb wedi'i gydlynu. Gall cynrychiolwyr yn y cyfarfod gynnwys yr heddlu

---

[95] https://welshwomensaid.org.uk/what-we-do/campaigning/toolkit-on-the-rights-of-vawdasv-survivors-subject-to-immigration-control/
[96] Ymchwil y Senedd (2022) "A oes ganddi hi statws?": Trais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol
[97] Gweler [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: Adroddiad Mawrth 2020 (llyw.cymru)](#)
[98] Just Right Scotland (2020) ASSISTING TRAFFICKED WOMEN Best practice principles of gender-specific legal assistance and integration supports to third country national female victims of trafficking for sexual exploitation.

lleol, iechyd, amddiffyn plant, ymarferwyr tai, cynghorwyr annibynnol ar drais domestig (IDVA), prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae dros 270 o gynadleddau MARAC yn gweithredu ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.[99] Y llynedd, trafodwyd 9,324 o achosion mewn cynadleddau MARAC ledled Cymru.[100]

Canfu gwerthusiad o gynadleddau MARAC yn 2009 fod hyd at 60% o ddioddefwyr cam-drin domestig yn dweud nad ydynt wedi profi rhagor o drais ar ôl ymyriad gan MARAC a gwasanaeth IDVA.[101] Yn ei hadolygiad o Ddeddf 2015, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru, er gwaethaf pryderon cyffredinol bod rhannu data rhwng asiantaethau sector cyhoeddus yn rhwystro goroeswyr rhag cael mynediad at y cymorth iawn ar yr adeg iawn, bod rhai enghreifftiau cadarnhaol[102] o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn rhannu a defnyddio data i amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr – yn enwedig mewn cynadleddau MARAC.

Cyfeiriodd ymatebwyr i werthusiad o gynadleddau MARAC yn 2011[103] at rwystrau a ffactorau a oedd yn ysgogi MARAC effeithiol. Nodwyd y rhwystrau a'r ffactorau ysgogol a ganlyn:

- Partneriaid ddim yn dod â'r wybodaeth briodol i'r MARAC, a hynny'n gallu arwain at aneffeithlonrwydd ac oedi, gan achosi rhwystredigaeth i gydweithwyr weithiau.
- Mae cynadleddau MARAC yn gyson aneglur ynglŷn â rôl iechyd, a phwy ym maes iechyd ddylai fod yn rhan o'r gynhadledd MARAC. Byddai eglurhad pellach yn fuddiol oherwydd gall cael y cyfuniad iawn o weithwyr iechyd proffesiynol gael effaith gadarnhaol iawn ar ganlyniadau i ddioddefwyr.
- Dylai'r MARAC fod yn glir ynglŷn â'i nodau a'i amcanion a dylai godi ei broffil mewn asiantaethau partner er mwyn annog atgyfeiriadau a sicrhau nad yw partneriaid yn teimlo ei bod yn broses sy'n cael ei harwain gan yr Heddlu.
- Mae cydlynu'r MARAC yn effeithiol yn fuddiol iawn – mae rhannu gwybodaeth yn fuan, a gweithredu'n gyflym ar gamau gweithredu cytunedig yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.
- Mae dulliau mwy cydweithredol o weithio yn fuddiol, gan helpu partneriaid i deimlo bod gwaith sy'n cael ei wneud yn y gynhadledd MARAC a'r tu allan iddi yn rhan o waith pobl yn ystod y dydd. Byddai rhagor o waith i integreiddio arferion gweithio yn lleol yn hwyluso hyn.

### g. Tai yn Gyntaf i Fenywod

Mae Tai yn Gyntaf yn ddull gweithredu blaenllaw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn helpu i ddileu digartrefedd. Mae'r bobl sy'n cael eu cefnogi mewn prosiectau Tai yn Gyntaf fel arfer wedi cael eu siomi gan y systemau tai presennol, maent wedi bod yn ddigartref fwy

[99] https://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/MARAC%20FAQs%20General%20FINAL.pdf
[100] Gweler Marac data 2021-2022 for publication.xls (live.com)
[101] Robinson, A. (2004); Howarth, E., Stimpson, L., Barran, D. a Robinson, A., (2009) Independent Domestic Violence Advisors: A multi-site process evaluation
[102] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar Waith, t.27
[103] Home Office Violent and Youth Crime Prevention Unit (VCYU) and Research and Analysis Unit (RAU) (2011) Research into Multi-Agency Risk Assessment Conferences (MARACs)

nag unwaith, ac maent wedi profi lefelau sylweddol o drawma. Mae prosiectau Tai yn Gyntaf yn dilyn set gaeth o egwyddorion.[104] Mae'r llety'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'n benagored ac yn ddiamod. Mae'r model yn seiliedig ar ymgysylltiad â gwasanaethau statudol, yn enwedig iechyd a chamddefnyddio sylweddau.[105]

Cyhoeddodd FEANSTA adroddiad yn ddiweddar yn adolygu astudiaethau achos o brosiectau Tai yn Gyntaf i Fenywod ledled Ewrop. Yn yr adroddiad maen nhw'n dweud:

> *"Mae'n bosibl integreiddio'r dull gweithredu hwn sy'n cael ei arwain gan anghenion tai yn dda iawn â dulliau o ddarparu gofal a chymorth sy'n seiliedig ar rywedd a thrawma. Mewn gwirionedd, mae'r dulliau gweithredu hyn yn ategu ei gilydd a gellir eu cyfuno i greu'r amgylchedd priodol i fenywod adael digartrefedd a thorri cylch trais a digartrefedd."*[106]

## 3. Ystyried dulliau o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a digartrefedd mewn ardaloedd eraill

### a. Cam-drin Domestig a Digartrefedd yn yr Alban

Gwnaeth y Grŵp Adolygu Atal nifer o argymhellion er mwyn gwella'r broses o atal digartrefedd ymysg pobl sy'n profi cam-drin domestig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i gymorth gan wasanaethau digartrefedd i atal digartrefedd gynnwys cymorth a mesurau diogelwch i alluogi ceiswyr i aros yn eu cartrefi yn ddiogel os dyna eu dewis.
- Dylai gwasanaethau atal digartrefedd weithio gyda phartneriaid eraill er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion pobl sydd angen cymorth tai oherwydd cam-drin domestig.
- Wrth ystyried addasrwydd llety a gynigir i gyflawnwr neu ddioddefwr cam-drin domestig, rhaid ystyried ei agosrwydd at y parti arall yn y gamdriniaeth.
- Dylai landlordiaid cymdeithasol sefydlu protocolau i fynd i'r afael â materion tai sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

Yn 2019, cyhoeddodd Cymorth i Fenywod yn yr Alban mewn partneriaeth â'r Sefydliad Siartredig Tai (CIH), Cymdeithas Prif Swyddogion Tai Awdurdodau Lleol (ALACHO), Shelter, a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban (SFHA) [ganllaw ymarfer da i landlordiaid cymdeithasol] er mwyn ymateb i gam-drin domestig. Mae'r adroddiad yn rhoi canllawiau penodol ar ddyrannu llety gan gynnwys:

- Protocolau i sicrhau nad yw llety a ddyrennir i fenywod yn golygu eu bod yn dal i wynebu risg, er enghraifft yn yr un ardal â'r cyflawnwr neu ei deulu (oni bai fod menywod wedi gofyn am yr ardal honno er enghraifft oherwydd bod arnynt eisiau cadw eu plant yn yr un ysgol).

---

[104] https://www.cymorthcymru.org.uk/en/policy/housing-first/
[105] Canllawiau Llywodraeth Cymru (2019) Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru
[106] FEANTSA (2022) HOUSING FIRST & WOMEN Case studies from across Europe

- Peidio â gofyn am rent mis ymlaen llaw fel un o amodau'r denantiaeth, oherwydd bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn menywod sydd wedi profi cam-drin domestig, sy'n debygol iawn o fod wedi profi camdriniaeth ariannol a chael eu hatal rhag ennill cyflog/cyflogaeth.
- Swyddogion tai cam-drin domestig arbenigol sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth i staff ac sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo, dyrannu llety a chymorth i denantiaid.
- Dull systematig cyson o wneud penderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo, dyrannu a chymorth i denantiaid.

Yn 2020, edrychodd Gweithgor yn Llywodraeth yr Alban ar ffyrdd o wella canlyniadau tai i fenywod a oedd yn profi cam-drin domestig. Rhannodd y grŵp ei waith yn ddau gam: roedd Cam un yn canolbwyntio ar waith landlordiaid cymdeithasol; a cham dau ar fater tai preifat. Cyhoeddodd y bartneriaeth ei hargymhellion yn dilyn Cam 1 yn Rhagfyr 2020. Roedd yr adroddiad yn gwneud chwe argymhelliad, ac mae'r canlynol yn berthnasol i newid cyfreithiol:

1. **Llety dros dro.** Dylai awdurdodau lleol a phartneriaid adolygu eu darpariaeth o lety dros dro er mwyn darparu llety dros dro un rhyw addas i fenywod, a darparu hyfforddiant arbenigol i'r holl staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau i bobl ddigartref. Dylai safonau llety dros dro fod yn seiliedig ar ddadansoddiad ar sail rhywedd.
2. **Nawdd cymdeithasol.** Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i gyflwyno taliadau rhanedig o'r dyfarniad Credyd Cynhwysol yn yr Alban er mwyn sicrhau bod pawb yn cael mynediad at incwm annibynnol. Cydnabyddir bod Credyd Cynhwysol yn fater sydd wedi'i ddal yn ôl i Lywodraeth y DU, a bod cynnydd â'r datblygiad hwn â'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn araf oherwydd Covid-19, ond dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflawni'r ymrwymiad hwn.
3. **Cymorth ariannol i fenywod sy'n profi cam-drin domestig.** Dylai Llywodraeth yr Alban archwilio opsiynau ar gyfer cronfa gymorth benodedig neu hawliadau â chanllawiau clir, ac a allai ddarparu taliadau rheolaidd tymor byr i gynorthwyo menywod sy'n gadael partner sy'n eu cam-drin. Dylai hyn gynnwys costau argyfwng hanfodol i alluogi menyw i adael a phontio'r bwlch rhwng gadael a thaliad cyntaf Credyd Cynhwysol.

**Deddf Cam-drin Domestig (Amddiffyn) (Yr Alban) 2021**
Cafodd Deddf Cam-drin Domestig (Amddiffyn) (Yr Alban) ei phasio yn 2021, ond nid yw wedi cychwyn eto. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno mathau newydd o amddiffyniad â Heddlu'r Alban a'r llysoedd yn cael pwerau i amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf drwy roi Hysbysiadau Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPO).

Mae Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig yn orchmynion llys a all symud rhywun yr amheuir ei fod yn cyflawni cam-drin domestig o gartref person sy'n wynebu risg a'i wahardd rhag cysylltu neu gam-drin y goroeswr mewn ffordd arall tra mae'r gorchymyn mewn grym. Mae Gorchymyn Diogelu rhag Cam-drin Domestig yn rhoi pŵer i'r heddlu roi hysbysiad gweinyddol byr iawn cyn gwneud cais i'r llys am Orchymyn mewn amgylchiadau lle mae angen hysbysiad o'r fath er mwyn diogelu rhywun rhag ymddygiad camdriniol cyn y gellir gwneud Gorchymyn Diogelu rhag Cam-drin Domestig interim neu lawn.

Gellir cymhwyso Hysbysiadau a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr hefyd dan Ddeddf Cam-drin Domestig newydd 2021.

### Enghreifftiau Eraill yn Ewrop

Yn Ewrop, mae dulliau amrywiol o gynorthwyo goroeswyr trais a chamdriniaeth i gael mynediad at lety diogel.

Mae datganiad polisi FEANTSA, ***Digartrefedd a Thrais Domestig: Teilwra Gwasanaethau i ddiwallu anghenion Menywod sy'n Ddigartref ac yn Ffoi rhag Trais Domestig***,[107] yn defnyddio enghreifftiau o ymarfer da o'r Iseldiroedd, Fienna a'r Almaen i amlinellu'r canlynol fel egwyddorion allweddol er mwyn teilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig:

- Mynediad at gymorth gan staff benywaidd
- Mynediad at Gymorth a Chefnogaeth Ymarferol er enghraifft mynediad at fudd-daliadau a chyflogaeth neu hyfforddiant iaith i fenywod mudol.
- Gwasanaethau cymorth trawma ac iechyd meddwl sydd ar gael yn rhwydd ac wedi'u hanelu tuag at anghenion dioddefwyr trais. Dylai gwasanaethau o'r fath fod "yn rhan o ddarpariaeth gwasanaeth integredig sydd ar gael i fenywod yn y sefyllfa hon".
- Gweithio gyda phlant a chreu amgylchedd sefydlog iddynt. Mae FEANTSA yn cydnabod ei bod "yn bwysig bod gan famau sydd â phlant gyda nhw le i edrych ar eu holau o hyd a chael rhywfaint o fywyd teuluol gyda nhw, er mwyn iddynt allu sefydlu ymdeimlad o ddiogelwch."
- Cefnogi'r gwaith o adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol.
- Gwaith dilynol er mwyn dal i gefnogi menywod ar ôl iddynt adael gwasanaethau.
- Yr angen i wasanaethau weithio gyda chyflawnwyr trais domestig.

## Pwyntiau i arwain trafodaeth

**Deddfwriaeth greiddiol yn ymwneud â digartrefedd/tai**

1. Mae'r Panel yn bwriadu argymell y dylid diddymu'r prawf angen blaenoriaethol. Yn dilyn hyn, sut allai'r Panel liniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol i grwpiau sydd ag angen blaenoriaethol ar hyn o bryd, gan gynnwys goroeswyr cam-drin domestig?
2. Mae'r Panel yn ystyried mewnosod dyletswydd ddeddfwriaethol newydd i helpu i gadw tenantiaethau. Pa fath o gymorth allai gael ei gynnwys dan y ddyletswydd hon er mwyn helpu goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gadw tenantiaeth?
3. Sut allai deddfwriaeth helpu i sicrhau bod dulliau opsiynau tai o gefnogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fwy seiliedig ar drawma?

[107] Gweler FEANTSA Position: Homelessness and Domestic Violence, 2007. Cafodd y pwyntiau allweddol hyn eu hailadrodd hefyd yn ymateb FEANTSA yn 2010 i Ymgynghoriad ar Strategaeth gan yr UE ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod 2011-2015.

4. Mae'r Panel yn bwriadu cadw cysylltiad lleol, ond edrych sut y gellid gwella'r gyfraith sy'n ymwneud â chysylltiad lleol. Dylai hyn hefyd ystyried:
    a. er ei bod yn bwysig cadw'r eithriad i'r prawf cysylltiad lleol ar gyfer y rhai hynny sy'n dianc rhag camdriniaeth, mae rhai awdurdodau lleol wedi camddehongli hyn ac wedi amddifadu goroeswr o'r dewis i gael llety yn ei awdurdod cartref.
    b. A ellid rhoi pwyslais ar ddod o hyd i lety i gyflawnwyr camdriniaeth yn rhywle ar wahân i awdurdod cartref eu dioddefwr, os dyma'r opsiwn mwyaf priodol.
    c. Mae'r rhanddeiliaid wedi dweud bod goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu teimlo bod siarad am eu profiadau yn achosi trawma iddynt, ac yn achos y rhai hynny nad ydynt wedi cael mynediad at wasanaethau VAWDASV penodol, gall dangos y statws hwn fod yn anodd. A oes angen ystyried sut y gallai dangos statws goroeswr er mwyn cael eithriad o gysylltiad lleol osgoi'r materion hyn?
    d. A yw'r cysylltiad lleol yn ei fformat presennol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r rhai hynny nad yw eu cais llety presennol yn gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond sydd wedi profi trais o'r fath yn y gorffennol?

**Mynediad at lety a chymorth**

5. Pa rôl fyddai landlordiaid cymdeithasol yn gallu ei chwarae er mwyn helpu i nodi a chynorthwyo'r rhai hynny sydd â phrofiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol? Pa gymorth fyddai ei angen er mwyn cyflawni hyn? A ddylai'r Panel ystyried sut y gallai protocolau a/neu ddyraniadau gynorthwyo â hyn?
6. Sut y gallai newid deddfwriaethol geisio mynd i'r afael yn well ag anghenion llety cyflawnwyr camdriniaeth?
7. Sut y gallai deddfwriaeth neu ganllawiau statudol annog datblygu gwasanaethau cymorth amrywiol yn well, a chyflenwad o dai sy'n fwy abl i ddiwallu anghenion cymhleth yn aml, a chroestoriadol, goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru?

**Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)**

8. A yw'r dyletswyddau i wasanaethau cymdeithasol gefnogi oedolion Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus wedi'u hymwreiddio'n ddigonol? A ellid gwneud mwy o ddefnydd o elfennau o becyn Cymorth i Fenywod mewn canllawiau statudol?
9. O ystyried y rhwystrau penodol a wynebir gan fenywod heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a yw'r Panel yn dymuno ymhelaethu ar ei argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chwilio am lwybr i gynnig cymorth i'r rhai hynny nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus?

**Ystyriaethau eraill**

10. A yw'r Panel yn ystyried ffyrdd y gellid gwella gwaith amlasiantaethol, a rhannu gwybodaeth yn fwyaf arbennig, er mwyn amddiffyn goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn well rhag wynebu risg o ddigartrefedd?
11. Sut y gellid ymwreiddio egwyddorion allweddol FEANTSA ar gyfer strwythuro cymorth i'r rhai sydd â phrofiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn canllawiau statudol?

**Sylwer:** Mae rhai pwyntiau a godwyd yn y papur hwn y bydd angen i'r Panel fynd yn ôl atynt fel rhan o drafodaethau yn y dyfodol. Er enghraifft, y cwestiwn a oes angen rheoliadau i sicrhau bod goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu lleoli'n briodol.

## Atodiad A: Argymhellion a gyhoeddwyd gan Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru (EYHC)

**Mae'r argymhellion a gyhoeddwyd yn *Out on the streets: LGBTQ+ youth homelessness in Wales*[108] fel a ganlyn:**

1. Dylai unrhyw strategaeth gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fynd i'r afael yn benodol â Digartrefedd Pobl Ifanc LGBTQ+, gan ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn, ynghyd ag ymgynghori â phobl ifanc, grwpiau LGBTQ+ a darparwyr gwasanaeth i wneud digartrefedd ymysg pobl ifanc LGBTQ+ yn anghyffredin, yn fyrhoedlog ac yn rhywbeth nad yw'n digwydd eto.
2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o dreialu gwasanaeth tebyg i un Upstream, lle mae ysgolion yn gweithio gydag arbenigwyr digartrefedd ymysg pobl ifanc er mwyn canfod pobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref.
3. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am ddata gan Awdurdodau Lleol ynglŷn â nifer y bobl LGBTQ+ sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd.
4. Dylai Awdurdodau Lleol ailedrych ar eu Hadolygiadau Statudol o Ddigartrefedd a'u Strategaethau Digartrefedd 5 Mlynedd yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn.
5. Dylid datblygu gwasanaethau tai â chymorth penodol ar gyfer pobl LGBTQ+, lle gall pobl ifanc LGBTQ+ sydd wedi cael eu gwneud yn ddigartref deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel.
6. Dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r grwpiau ieuenctid yn eu hardal, ac mewn cysylltiad â nhw, a bod cymorth ariannol ar gael iddynt yn ôl y galw.
7. Dylai awdurdodau lleol, darparwyr trydydd sector ac ymarferwyr iechyd sy'n gweithio gyda phobl ifanc gomisiynu hyfforddiant gan sefydliadau LGBTQ+ er mwyn sicrhau bod eu staff yn teimlo'n gwbl hyderus wrth weithio gyda phobl ifanc LGBTQ+ a'u bod yn gwybod i ble i'w cyfeirio ar gyfer ymyriadau arbenigol.
8. Dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau trydydd sector ystyried ffyrdd o wneud gwasanaethau digartrefedd yn fwy croesawus a chynhwysol o bobl LGBTQ+.
9. Dylai sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddarparu toiledau niwtral o ran rhywedd.
10. Dylai pobl ifanc sy'n cysylltu â gwasanaethau digartrefedd gael cynnig rhagweithiol o le preifat i siarad ag aelodau o'r staff am eu rhesymau dros gysylltu.
11. Mae angen mwy o ymchwil i'r pwnc hwn er mwyn ein helpu i ddeall anghenion pobl ifanc LGBTQ+ yng Nghymru yn well.

[108] https://www.llamau.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=1ab2fc66-c571-44f0-8ceb-2d1346f38303

**Mae'r argymhellion a gyhoeddwyd yn *'Don't let me fall through the cracks': Homelessness amongst care-experienced young people in Wales*[109] fel a ganlyn:**

1. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut y mae Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal yng Nghymru Barnardo's yn cael ei roi ar waith yn ymarferol.
2. Dylid cynnal adolygiad amlasiantaethol unrhyw bryd y mae person ifanc yn dod i sylw awdurdod lleol fel un sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref.
3. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio dichonoldeb polisi 'Hawl i Ddychwelyd i Ofal'.
4. Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol adolygu rheolau ac ymarfer cysylltiad lleol o ran y gofal a brofir gan bobl ifanc.
5. Rhaid i dimau opsiynau tai awdurdodau lleol bob amser geisio canfod drwy ddulliau rhagweithiol a oes gan berson ifanc brofiad o fod mewn gofal pan mae'n cysylltu â hwy i ddweud ei fod yn wynebu risg o fod yn ddigartref.
6. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu capasiti a throsiant staff mewn gwasanaethau cymdeithasol, gan ddarparu rhagor o fuddsoddiad, yn ôl y galw.
7. Mae angen i rieni corfforaethol sicrhau bod galluoedd ariannol gadawyr gofal yn cael eu datblygu drwy'r broses cynllunio llwybr a bod cymorth yn cael ei roi iddynt gan weithwyr proffesiynol i baratoi ar gyfer annibyniaeth ariannol.
8. Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno eithriad i adawyr gofal o Gyfradd Credyd Cynhwysol Llety a Rennir.
9. Dylai Awdurdodau Lleol adolygu faint o gymorth sydd ar gael i bobl ifanc yn eu gofal sy'n trosglwyddo o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl oedolion.
10. Dylai Awdurdodau Lleol adolygu'r cymorth profedigaeth sydd ar gael i bobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal a phobl ifanc ddigartref.
11. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw berson ifanc 16 neu 17 oed yn cael ei roi mewn llety dros dro heb gymorth. Dylai pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n cysylltu ag awdurdod lleol i ddweud eu bod yn ddigartref, p'un a ydynt wedi cael profiad o fod mewn gofal ai peidio, gael llety â chymorth priodol, boed drwy brosiect tai â chymorth, lleoliad maeth, tŷ llety a chymorth neu leoliad tebyg â chymorth. Os oes angen llety tymor byr, er mwyn gwneud asesiadau a dod o hyd i lety priodol, rhaid iddo fodloni'r safonau gofynnol a nodwyd gan bobl ifanc yn yr adroddiad hwn, a dylid darparu cymorth ac amserlen i'r person ifanc ar gyfer yr adeg y bydd yn symud i lety sefydlog.
12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ymrwymiad i gyfyngu'n llym ar hyd y cyfnod y dylid disgwyl i unrhyw berson ifanc dros 17 oed aros mewn llety dros dro cyn cael llety sefydlog, fel sydd wedi'i wneud yn yr Alban. Y cyfnod a dderbyniwyd yn yr Alban yw 7 niwrnod. Mae hyn yn unol â dull gweithredu datganedig presennol Llywodraeth Cymru o ailgartrefu cyflym mewn llety sefydlog. Gallai'r llety sefydlog hwn gynnwys llety i bobl ifanc, llety â chymorth a rennir, neu lety person sengl (â chymorth lle bo'r angen, yn ôl y galw), gan ddibynnu ar anghenion y person ifanc.
13. Dylai Llywodraeth Cymru orfodi safonau llety dros dro gofynnol newydd. Dylid cytuno ar y rhain drwy ymgynghori â phobl ifanc a dylent fod yn seiliedig ar y 'rheolau aur' a amlinellwyd yn y papur hwn.

[109] 'Don't let me fall through the cracks': Homelessness amongst care-experienced young people in Wales

**Mae'r argymhellion a gyhoeddwyd yn *Roadmap to Ending Youth Homelessness in Wales*[110] fel a ganlyn:**

1. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu strategaeth tlodi plant gynhwysfawr, â cherrig milltir clir, mesuradwy ac uchelgeisiol.
2. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar waith a wnaethpwyd gan Sefydliad Bevan ac y rhoddwyd sylw manwl iddo yn ail adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, er mwyn gwella'r system les fel bod pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael mynediad at denantiaethau a'u cadw.
3. Dylai Awdurdodau Lleol fynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio barn pobl ifanc wrth benderfynu ynglŷn â'r angen am dai ar gyfer cynlluniau datblygu lleol. Dylid adolygu mecanweithiau ymgynghori er mwyn sicrhau, yn fwyaf arbennig, bod barn y bobl ifanc hynny y mae tai fforddiadwy fwyaf allan o'u cyrraedd yn cael ei chlywed. Dylai hyn arwain at ddatblygu gwell cymysgedd o dai, â mwy yn cael eu darparu mewn ardaloedd, ac am brisiau, sydd o fewn cyrraedd pobl ifanc.
4. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig roi ystyriaeth benodol i bobl ifanc wrth benderfynu ynglŷn â fforddiadwyedd rhent ar draws eu stoc dai. Os oes angen grant ychwanegol i ddatblygu tai sy'n addas ac yn fforddiadwy i bobl ifanc, yna dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector er mwyn penderfynu sut y gellid cyflawni hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol.
5. Dylai Llywodraeth Cymru ddal i gefnogi Tai Ffres, llwybr unigryw i dai sefydlog, diogel ar gyfer pobl ifanc, wrth iddo ddatblygu. Ar adeg briodol, dylai'r cymorth hwn gynnwys cyllid ar gyfer gwerthusiad cynhwysfawr o'i botensial i leihau digartrefedd ymysg pobl ifanc drwy ehangu ymhellach.
6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Hawl i Gartref Digonol er mwyn cynyddu atebolrwydd ynglŷn â'r angen hwn sy'n un o'r rhai mwyaf sylfaenol.
7. Dylai awdurdodau lleol, darparwyr trydydd sector ac ymarferwyr iechyd sy'n gweithio gyda phobl ifanc gomisiynu hyfforddiant gan sefydliadau LGBTQ+ er mwyn sicrhau bod eu staff yn teimlo'n gwbl hyderus wrth weithio gyda phobl ifanc LGBTQ+ a'u bod yn gwybod i ble i'w cyfeirio ar gyfer ymyriadau arbenigol. Byddai gwell dealltwriaeth ledled Cymru yn lleihau anoddefgarwch ac yn sicrhau bod problemau'n dod i'r amlwg yn gynharach, gan leihau nifer y bobl ifanc sy'n wynebu argyfwng.
8. "Ni ddylai unrhyw berson ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal gael ei wahardd o'r ysgol. Rhaid iddynt gael eu hystyried yn grŵp a warchodir y dylid cynnig darpariaeth amgen iddynt, drwy ddull gweithredu rhanbarthol efallai" – Mae hwn yn un o flaenoriaethau gweithgor EYHC ar 'Leihau'r Cysylltiadau rhwng Profiad o fod mewn Gofal a Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc'.
9. Rydym yn argymell y dylid gwneud ymchwil i weld a oes angen llwybr tai ar wahân i bobl ifanc 18 – 25 oed sy'n gadael sefydliadau diogel. Bydd y bobl ifanc hyn yn wynebu anawsterau wrth geisio dod o hyd i rywle i fyw ac mae angen llwybr penodol sy'n ystyried anghenion pobl ifanc.
10. Rydym yn argymell bod pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ieuenctid – gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal, y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) a'r rhai sy'n hysbys i'r sector cyfiawnder troseddol neu'r rhai sy'n wynebu risg o fod yn hysbys i'r system cyfiawnder troseddol – yn cael eu cynnwys ym mholisïau caffael cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Ar

[110] https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/149649/1/EYHC%20Roadmap%20Full%20Report.pdf

sail canfyddiadau gwaith EYHC ar Atal Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc drwy Gaffael Cymdeithasol gwyddom fod cyflogaeth â chymorth yn gallu helpu i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc sydd mewn perygl yng Nghymru.

11. Rydym yn argymell bod landlordiaid sector rhentu preifat yng Nghymru yn cael eu cymell i ddweud wrth Awdurdodau Lleol pan fydd gan eu tenantiaid ddyledion rhent fel bod modd rhoi cymorth priodol yn ei le. Gallai hyn fod yn un o'r gofynion er mwyn cofrestru â Rhentu Doeth Cymru.
12. Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso sefydlu rhwydwaith Lletya Cymunedol cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

**Mae'r argymhellion a gyhoeddwyd yn *A Better Way Home: Community hosting to prevent youth homelessness*[111] fel a ganlyn:**

1. Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso'r gwaith o sefydlu rhwydwaith Lletya Cymunedol cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Rydym yn cydnabod bod rhai awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector wedi bod yn cyfarfod yn achlysurol i'r perwyl hwn, ond dylai hyn gael ei wneud yn ffurfiol a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod Lletya Cymunedol yn cael ei gydnabod, a'i fod yn hygyrch, ledled y wlad fel elfen werthfawr o'r strategaeth gyffredinol i ddileu digartrefedd ymysg pobl ifanc. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu y dylai'r rhwydwaith hwn ystyried adolygu a rhannu ymarfer sy'n ymwneud â:
    - ffyrdd o sicrhau bod lletywyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi (gan gynnwys lefelau tâl)
    - cynhyrchu set gyffredinol o safonau ansawdd ar gyfer Lletya Cymunedol
    - adnoddau hyfforddi ar gyfer lletywyr, wedi'u cynllunio ar y cyd â phobl ifanc. Roedd y bobl ifanc yn awyddus iawn i weld lletywyr yn cael hyfforddiant ynglŷn â materion iechyd meddwl.
2. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu ymgyrch hysbysebu wedi'i chynllunio er mwyn cynyddu niferoedd ac amrywiaeth lletywyr, â mewnbwn gan y rhwydwaith cenedlaethol i adlewyrchu'r angen ar lefel leol.
3. Dylai'r rhwydwaith Lletya Cymunedol cenedlaethol ystyried a all gynnig lle i letywyr ddod at ei gilydd fel rhwydwaith o gymheiriaid i rannu ymarfer da, awgrymiadau a phrofiadau.
4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan bob awdurdod lleol ddigon o adnoddau i ddarparu Lletya Cymunedol ag aelodau dynodedig o staff Lletya Cymunedol, boed yn yr awdurdod lleol neu'r trydydd sector, i reoli'r cynnydd mewn lleoliadau ochr yn ochr â'r ymgyrch hon.
5. Dylai Timau Maethu Awdurdodau Lleol argymell ceiswyr Gofal Maeth y mae eu ffordd o fyw yn fwy addas i Letya Cymunedol i'r adran briodol yn eu hawdurdod lleol er mwyn helpu i recriwtio lletywyr.
6. Dylai adrannau digartrefedd awdurdodau lleol gynnig Lletya Cymunedol mewn modd rhagweithiol fel opsiwn i bobl ifanc, os yw ar gael, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn dod â'r defnydd o lety argyfwng anaddas a niweidiol i ben. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n aml drwy adrannau gwasanaethau cymdeithasol, ond mae angen ei ystyried fel rhan o Strategaethau Digartrefedd Pobl Ifanc pob Awdurdod Lleol. Mae Lletya Cymunedol yn cynnig ffynhonnell ddefnyddiol o gymorth a llety i bob person ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, p'un a oes ganddo statws 'derbyn gofal' ai peidio.

[111] https://static1.squarespace.com/static/5eec973487c9c707d4e46170/t/629f0fca9ed2b8104776605b/1654591435881/A+Better+Way+Home+-+Full+Report.pdf

## Atodiad B: Diffiniadau dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

(1)Yn y Ddeddf hon—

ystyr “cam-drin” (“*abuse*”) yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol;

ystyr “cam-drin domestig” (“*domestic abuse*”) yw cam-drin a ddaw o du person sy’n gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â’r dioddefwr;

ystyr “trais ar sail rhywedd” (“*gender-based violence*”) yw—

a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy’n codi yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy’n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
b) anffurfio organau cenhedlu benywod;
c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw’n rhwymo mewn cyfraith ai peidio);

ystyr “trais rhywiol” (“*sexual violence*”) yw camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rywiol;

(2)Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddibenion y diffiniad o “cam-drin domestig” yn is-adran (1) os ydynt—

a) yn briod â’i gilydd neu wedi bod yn briod â’i gilydd;
b) yn bartneriaid sifil i’w gilydd neu wedi bod yn bartneriaid sifil i’w gilydd;
c) yn byw gyda’i gilydd neu wedi bod yn byw gyda’i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus (pa un a ydynt o rywiau gwahanol neu o’r un rhyw);
d) yn byw neu wedi byw ar yr un aelwyd; ac at y diben hwn mae person yn aelod o aelwyd person arall—
    i. os yw’r person fel arfer yn byw gyda’r person arall fel aelod o’i deulu, neu
    ii. os y gellid disgwyl yn rhesymol i’r person fyw gyda’r person arall hwnnw;
e) yn berthnasau i’w gilydd;
f) wedi cytuno i briodi ei gilydd (pa un a yw’r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);
g) wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil rhyngddynt (pa un a yw’r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio;
h) mewn perthynas bersonol agos â’i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas o’r fath;
i) mewn perthynas â phlentyn, y naill a’r llall yn rhiant i’r plentyn neu â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu wedi bod â chyfrifoldeb o’r fath.

(5) Yn yr adran hon—

- ystyr "plentyn" ("*child*") yw person o dan 18 mlwydd oed;
- mae i "cytundeb partneriaeth sifil" ("*civil partnership agreement*") yr ystyr a roddir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p.33);
- ystyr "anffurfio organau cenhedlu benywod" ("*female genital mutilation*") yw gweithred sy'n drosedd dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (p.31);
- ystyr "cam-drin ariannol" ("*financial abuse*") yw—

a) bod arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn,
b) bod person yn cael ei dwyllo,
c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall, a
d) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;

- ystyr "aflonyddu" ("*harassment*") yw llwybr ymddygiad gan berson y mae'n gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall; ac at ddiben y diffiniad hwn—

a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu, neu'n cynnwys aflonyddu, pe bai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth o'r farn bod y llwybr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar berson arall, neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall, a
b) mae "ymddygiad" yn cynnwys siarad;

- ystyr "camfanteisio rhywiol" ("*sexual exploitation*") yw rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson—

a) sy'n cynnwys cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru a Lloegr, neu
b) a fyddai'n cynnwys cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr;

- mae i "cyfrifoldeb rhiant" ("*parental responsibility*") yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p.41);
- ystyr "perthynas" ("*relative*"), mewn perthynas â pherson, yw rhiant, tad-cu/taid, mam-gu/nain, plentyn, ŵyr, wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith y person (gan gynnwys unrhyw berson sydd neu sydd wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).